# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 455 | Hydref 2024 | Pris £1.50


# DIWEDD CYFNOD YN LLANBOIDY





Jerry a Dorothy gyda'r meibion Malcolm Stuart a Rodney

Daeth trigolion Llanboidy a'r fro ynghyd ddydd Iau, 10fed o Hydref i ddymuno'n dda i Rodney Williams, Cloth Hall, sydd yn ymddeol ar ôl bod yn y siop am 55 o flynyddoedd.

Daeth camerau rhaglen Heno S4C i gofnodi'r achlysur. Bu Rodney yn diolch am y gefnogaeth gafodd gan ei gwsmeriaid ar hyd y blynyddoedd a bu rhai oedd yn bresennol, yn cynnwys Dorian Phillips, y Cynghorwr Sir lleol a Mrs Nora Heseltine, yr hynaf o drigolion y pentref, yn diolch ac yn dymuno'n dda iddo yntau ar ei ymddeoliad.

Prynwyd y busnes, sef Cloth Hall gan rieni Rodney, Jerry a Dorothy Williams yn 1951 ac ar ôl naw mlynedd, yn 1960, cymerodd Dorothy y Swyddfa Bost drosodd a bu'n rhedeg y busnes am 31 o flynyddoedd hyd 1991.

Ymunodd Rodney â'r busnes yn 1969 ac yn 1991, yn dilyn ei fam, cymerodd y Swyddfa Bost drosodd a bydd, pan yn ymddeol, wedi bod yn Bostfeistr am 33 mlynedd. Yn 1993, ehangwyd ac addaswyd yr adeilad i wneud y siop yn llawer mwy.

Mae Rodney, gyda chefnogaeth ei briod Eiry wedi gwasanaethu'r pentref a'r gymuned yn ardderchog gan fynd allan o'i ffordd i helpu pawb. Daeth hyn yn amlwg adeg Covid pan welwyd ef yn mynd â bwyd a nwyddau o bob math i'w gwsmeriaid oedd yn methu dod i'r siop, a gwneud hynny am fisoedd lawer. Anrhydeddwyd ef am hyn pan drefnodd Cyngor Cymuned Llanboidy osod plac ar fur y siop, fel arwydd o werthfawrogiad am ei garedigrwydd.

Mae Rodney yn Gymro i'r carn ac ar hyd y blynyddoedd wedi cefnogi cynhyrchwyr a busnesau lleol drwy werthu ei cynnyrch yn y siop ac hefyd wedi cyflogi staff lleol. Mae hefyd, o hyd yn cefnogi popeth sydd yn cael ei gynnal yn lleol e.e. yn yr Eglwys, Neuadd y Farchnad a'r Clwb Chwaraeon i enwi ond rhai.

Bydd Rodney yn gorffen yn y siop ar ddydd Mercher, 17eg o Hydref a dymunwn ymddeoliad hapus a phob iechyd iddo ac i Eiry.

Dymuniadau gorau a phob llwyddiant i'r perchennog newydd.

***DALIER SYLW***

**Rhifyn nesaf fydd rhifyn y Nadolig. Nid oes rhifyn i gael yn mis Tachwedd. Rhaid cael y newyddion, lluniau a chyfarchion Nadolig personol (gyda thâl o £5) a Hysbysebion Busnes erbyn Dydd Gwener, Tachwedd 15fed (fan pellaf).**

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **<u>10fed</u>** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com



Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.



Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Wrth i fi ysgrifennu'r golofn y mis hwn, mae'r cyntaf anedig yn dathlu ei ben-blwydd yn 23 oed. A bob blwyddyn, rydw i'n rhyfeddu fod y blynyddoedd yn hedfan mor gyflym.

Ond ar adegau fel hyn hefyd, rydw i'n sylweddoli fod cymaint wedi newid dros y blynyddoedd, er bod y cyfnod yn teimlo fel ddoe. Mae'n fyd gwahanol ac eto mae pob plentyn sydd wedi ei eni ers 2001 wedi dod i fyd yn llawn rhyfela, gyda nifer fawr yn cael eu magu yng nghanol y gwrthdaro dychrynllyd hwnnw ac eraill, fel fy mhlant i, mor lwcus bod ganddynt y rhyddid i fynd a dod heb ofn.

Cafodd Lleu ei eni union fis wedi ymosodiadau Medi'r 11eg yn America. Dyma oedd y trobwynt pan benderfynodd gwledydd ar hyd a lled y byd bod angen tynhau rheolau diogelwch, ac nad oedd yr un wlad yn ddiogel. A hyd heddiw ry'n ni yn dal i orfod rhoi ein hylifau mewn bagiau tryloyw ar wahân wrth gludo bag ar awyren, er bod bwriad i lacio'r rheolau hynny yn fuan.

Ac er nad yw'r byd wedi newid wrth ystyried gwrthdaro a rhyfela, mae newidiadau rhyfeddol mewn meysydd eraill, yn enwedig ym maes technoleg.

Pan chwalodd tyrrau Canolfan Masnach y Byd yn Efrog newydd ar 9/11, doedd dim ffonau clyfar a chyfryngau cymdeithasol. Doedd dim fideos yn cael eu cyhoeddi gan bobol yn y fan a'r lle.

Rwy'n cofio fy mod yn gwrando ar gerddoriaeth yn yr ysbyty cyn geni Lleu gyda pheiriant cryno ddisg yn fy llaw. Roedd yn ymddangos yn beiriant bychan iawn ar y pryd, ond bellach, byddai'n cael ei weld fel horwth o beth lletchwith.

Ac wrth adael yr ysbyty, doedd dim system llywio Sat Nav yn y car a fyddai'n dweud wrthym pryd yn union y byddem yn cyrraedd adre', ac yn lle yn union roedd y tagfeydd ar y ffordd adref, er mwyn i ni eu hosgoi.

Doedd ailgylchu sbwriel ddim yn rhan o'n diwylliant, ac roedd y mwyafrif ohonom yn talu am nwyddau gydag arian parod, neu'n ysgrifennu siec, a finne yn cael trafferth mawr ysgrifennu'r bonyn am fy mod yn llaw chwith! Ac wrth gwrs, roedd hanner dwsin o fanciau yn ein trefi. Ac mae nifer fawr o'r adeiladau gosgeiddig hynny bellach yn gartref i barlyrau trin cŵn, a'r siopau mwyaf cyffredin ar ein prif strydoedd yw cwmniau tatŵ a gwerthwyr fêps. Ac wrth gwrs, mae nifer y capeli wedi gostwng yn sylweddol ers 2001.

A chyda phrisiau stamp wedi codi yn sylweddol iawn, mae'r arfer o anfon cardiau Nadolig yn prysur ddiflannu. Ac eto mae datblygiadau mawr ym maes anfon parseli, a nifer fawr yn manteisio ar hynny. Rydw i'n rhyfeddu bod modd i mi bellach anfon parsel, heb label o gwbwl arno, drwy gerdded bum munud i fyny'r hewl a'i adael mewn cwpwrdd penodol drwy sganio fy ffôn, ac yna ei fod yn cyrraedd pen y daith, heb i mi ysgrifennu'r un enw na chyfeiriad arno.

Y cwestiwn mawr ar ein haelwyd ni bellach ydy a ydym wir angen ffôn yn y tŷ. Gyda thri aelod o'r teulu yn unig yn ein ffonio ar y rhif hwnnw, a gweddill y galwadau yn rhai niwsans, penderfynom wneud mymryn o waith ymchwil a holi'r rhai o'n cenhedlaeth ni. Ac fe nododd y mwyafrif llethol nad oes ganddyn nhw ffôn llinell

*parhad ar dudalen 3*

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Merle Jones
01267 211300
eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch, Beti-Wyn James
parchbetiwyn@gmail.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Lynys Davies
01437 563319
mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.comY
(Newyddion Tabernacl) Parch. Guto Llywelyn
01269 851655
gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine
01994 448241
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Jill Lewis
01994 419495
jill.lluest@gmail.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@googlemail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@btconnect.com

dir bellach. Roedd ambell un yn rhyfeddu fod gennym y fath beth hen ffasiwn yn ein cartref. Rydym eto i ddod i benderfyniad ar y mater hwnnw. Ond fel fy mheiriant CD yn 2001, mae'n bur debyg na fyddan nhw'n bodoli ymhen 23 mlynedd arall. Cofiwch chi – Kylie Minogue oedd yn chwarae ar y peiriant hwnnw yn 2001 ac mae hi'n dal i fynd o nerth i nerth!

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan y Parch. Huw George*

**'TORRI TWLL'**

Mae'r ail bennod o efengyl Marc yn dechrau gyda hanes dyn oedd wedi ei barlysu ac yn sôn am Iesu yn ei iacháu. Yn ôl Marc, nid dyma'r tro cyntaf iddo gyflawni gwyrthiau. Mae'r bennod gyntaf yn adrodd hanes iachau'r dyn ag ysbryd aflan ynddo, mam yng nghyfraith Simon a dyn gwahanglwyfus a nifer o bobol eraill. Aeth yr hanes amdano ar led a gyda'r nos, a'r haul wedi machlud, yr oeddent yn dwyn ato'r holl gleifion a'r rhai oedd wedi eu meddiannu gan gythreuliaid. Iachaodd ef lawer oedd yn glaf dan amrywiol afiechydon, a bwriodd allan lawer o gythreuliaid. Mae'n dychwelyd i Gapernaum ac aeth y newydd ar led ei fod gartref. Daeth torf enfawr ynghyd gan amgylchynu'r tŷ. Daethant â dyn wedi ei barlysu ato, a phedwar yn ei gario ar fatras. A chan eu bod yn methu dod â'r claf ato oherwydd y dyrfa, mae'r pedwar yn torri twll yn y to, ac yn ei ollwng i lawr o flaen Iesu. Pan welodd Iesu eu ffydd hwy dywedodd wrth y claf, "Fy mab, maddeuwyd dy bechodau."

Dyma i chi hanes hyfryd. Gai ofyn i chi ystyried cefndir y wyrth am ychydig. Mae Iesu yn sylwi ar ffydd ffrindiau'r dyn ac yn ei wella oherwydd hynny. Ond nid ffydd yn unig sydd ganddynt. Mae'r pedwar hyn yn cario eu cyfaill i'r tŷ am fod Iesu yno ac wedi gweld y dorf, maent yn cynllunio ac yn creu ffordd i ddod ag ef i sylw Iesu gan ddringo i ben yr adeilad ac yno, maent yn torri twll yn y to ac yn ei adael i lawr yn araf. Oes gyda chwi ffrindiau sy'n barod i'ch cludo fan hyn a fan draw? Siŵr o fod. Ond, oes gyda chwi ffrindiau fyddai'n barod i dorri twll yn y to er mwyn eich cynorthwyo? Ac, efallai, yn bwysicach, a ydych chwi yn ffrind fyddai'n barod i dorri twll yn y to er mwyn un o'ch cyfeillion? Ffydd weithredol yn arwain at y wyrth. Awn ati i dorri twll ym mis Tachwedd !

# CYFLWYNO SGARFF Y CAPLAN



Dydd Iau, Medi 26ain cafodd dirprwyaeth o Gôr Meibion De Cymru ymweld â Phreswylfa'r Esgob yng Nghaerfyrddin lle cawsant eu croesawu gan Dorrien Davies, Esgob Tyddewi.

Yr achlysur oedd cyflwyno'r C.M.D.C. Sgarff y Caplan (Tippet) i'r Esgob ar ei gytundeb i ddod yn Gaplan y Côr, swydd a fu'n wag am beth amser.

Derbyniwyd y sgarff, a gyflwynwyd gan yr Is-Gadeirydd Gwynlais Phillips, yn garedig gan yr Esgob a arddelodd ei hun yn uchel ei barch ac addo ei gefnogaeth lwyr i'r côr.

# Posau John Arfon

Dyma atebion i bosau Mis Medi

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | X | O | X | O | X |
| X | O | X | O | X | O |
| X | O | 0 | X | O | X |
| O | X | X | O | X | O |
| X | O | X | X | O | O |
| O | X | O | O | X | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 4 | 9 | 2 | 3 | 7 | 8 | 6 | 1 |
| 7 | 8 | 2 | 6 | 5 | 1 | 3 | 9 | 4 |
| 3 | 6 | 1 | 8 | 4 | 9 | 2 | 5 | 7 |
| 1 | 9 | 4 | 5 | 6 | 2 | 7 | 3 | 8 |
| 2 | 5 | 8 | 1 | 7 | 3 | 9 | 4 | 6 |
| 6 | 3 | 7 | 4 | 9 | 8 | 5 | 1 | 2 |
| 4 | 7 | 3 | 9 | 8 | 6 | 1 | 2 | 5 |
| 8 | 1 | 6 | 3 | 2 | 5 | 4 | 7 | 9 |
| 9 | 2 | 5 | 7 | 1 | 4 | 6 | 8 | 3 |

**Dyma ddau arall i'ch dyfyrru**


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | X | | O | | X |
| | | O | | | |
| O | | | | X | |
| | X | | | | |
| | | | | X | X |
| | | O | | O | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 7 | | 2 | 3 | | | | |
| 5 | | | | | | 6 | | 4 |
| | 4 | | | | 9 | | 3 | |
| | | 8 | | 1 | | | 5 | 2 |
| | 2 | 5 | | | | 3 | 4 | |
| 3 | | | 6 | | | | 8 | |
| | | | | | | 1 | 2 | 9 |
| | | | 8 | | 7 | | | |
| | | | | | 6 | 8 | | |

**Y pôs cyntaf y mis hwn yw cwis gyda'r holl atebion yn dechrau gyda'r llythyren "C". Dyma' r cliwiau:**

1. Cleddyf y Brenin Arthur
2. Ysgrifennwr y geiriau i Nant y Mynydd
3. Ym mhle cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol hanner can mlynedd yn ôl (1974)
4. Llysenw ar frodor o'r hen Sir Aberteifi.
5. Castell ger Llandeilo.
6. Enw'r morwr dall yn "Dan y Wenallt".
7. Llysieuyn sy'n arwyddlun y Cymry ar Ddydd Gŵyl Dewi.
8. Gwobr eisteddfodol am awdl.
9. Yma mae y tŷ lleiaf yng Nghymru.
10. Cartref arweinydd Merched Beca.
11. Cariad Olwen yn y Mabinogion.
12. Albert Evans-Jones (1895-1970)

AN
AU
CL
CR
GR
GW
IO
ON
PL
TW
US
YM
YN



# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae'r tywydd wedi troi'n ddiweddar a'r Hydref yn bendant wedi cyrraedd! Croeso cynnes i'n haelodau newydd a gofynnaf yn garedig i'r sawl sydd heb ymaelodi eto, i wneud, drwy ddanfon siec i mi am £10 yn daladwy i 'Clwb 200 Y Cardi Bach'. Mae modd talu drwy'r system BACS hefyd a'r manylion sydd angen ar gyfer hwn yw 40-46-27....rhif y cyfrif yw 91020765...a lle mae angen cyfeirnod, rhowch eich enw chi fan hyn. Bydd enwau pawb a wnaiff ymaelodi erbyn diwedd y flwyddyn, yn cael eu cynnwys yn y Raffl Fawr, gyda chyfleoedd i ennill sawl gwobr ariannol!

Diolch i'r canlynol am ymaelodi oddi ar y rhifyn diwethaf:-

Howell Jones, Courtlands, Pwll-Trap
Sharon Jones, Courtlands, Pwll-Trap
Dianne Thomas, 23 Caernarfon Drive, Rhiwderin, Casnewydd

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill ym mis Medi:-

£30 - 404 - Gwawr Lewis, Neuadd, Meidrim

£20 - 282 - Owain Jones, Cware, Llwynbrain, HDG

Diolch am eich cefnogaeth i'r Clwb 200 ac i'r Cardi Bach.

Cadwch yn ddiogel,

*Rhian*

# Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda



Cynhaliwyd y daith gerdded noddedig flynyddol ar fore Sadwrn, Medi 14eg. Croesawyd pawb ynghyd tu fas i gapel Ramoth, Cwmfelin Mynach gan y Cadeirydd Parch Guto Llywelyn a chafwyd gair o weddi gan Wyn Evans cyn i'r cerddwyr gychwyn ar eu taith. Roedd yn hyfryd cael cwmni nifer o blant ac oedolion o bob oed ar y daith.

Roedd y tywydd yn fendigedig a phawb yn mwynhau'r gymdeithas. Wedi cwblhau'r daith o 4 milltir, braf oedd cyrraedd nôl yn festri Ramoth a mwynhau'r lluniaeth blasus ddarparwyd gan wragedd Ramoth a Moreia. Diolchodd Gwenda Mathias iddynt am y wledd. Diolch i'r cerddwyr a'r stiwardiad am ofalu fod pawb yn ddiogel.

Cynhelir Oedfa o Fawl yng nghapel Nebo, Efailwen ar brynhawn Sul, Tachwedd 24ain am 2 o'r gloch pan fydd yr arian yn cael ei drosglwyddo i'r elusennau.

**Oedfa o Fawl dan nawdd Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda**

Prynhawn Sul 24ain Tachwedd
am 2 o'r gloch
yng Nghapel Nebo, Efailwen

Dan arweiniad - Ceirios Jenner
Cyfeilydd - Heather Jenkins

Eitem gan blant
Ysgol Sul Nebo

Llywydd - Parch Guto Llywelyn

Yr elw i'w rannu rhwng:
Sglerosis Ymledol (MS)
Clefyd Parkinson
Meddygfa Taf, Hendygwyn

Cesglir yn yr oedfa

Bydd rhaglenni wrth y drws

**BELLISSIMO**
Blodau gan
Kathy Bizzotto
(Llandysilio)
ar gyfer pob achlysur.
Defnyddir blodau
tymhorol lleol.
Ffôn: 07944 248973
e-bost:
kathbizzoto@gmail.com



**IFAN DAVIES**
Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469



*W.J. KENNETH DAVIES*
*a'i Feibion a'i Ferch*
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
*Blaenwern, Clunderwen*
Ffôn: 01437 563319

# Colofn Llên *gan Marian Thomas*

Doeddwn i ddim wedi meddwl darllen **Llythyr Noel** gan fy mod yn tybio fy mod yn gwybod yr hanes ar ôl gwylio'r gyfres ddrama am y Swyddfa Bost a enillodd sawl gwobr teledu'r mis diwethaf. Ond yna'n ddiweddar bu rhaglen ddogfen am hanesion rhai o'r unigolion, ac ymddangosodd Noel a'i ferch Sian sawl gwaith ar honno a theimlais mod i am ddarllen mwy am ei brofiadau dirdynnol. Ei hanes a'i gefndir a geir yn y rhan gyntaf sy'n crisialu natur cymuned cefn gwlad ardal Gaerwen, Ynys Môn yn ail hanner y ganrif ddiwethaf. Yna ceir hanes ei ddedfrydu a hynny o'i safbwynt e am yn ail â phrofiad ei ferch, Sian. Mae ei ddisgrifiad o fywyd carchar Walton a'i farn am y system honno yn taro tant gyda'r newyddion diweddar am garchardai orlawn. Rwy'n cofio ymweld â rhywun yn Walton ryw dro! Fe fu ym 'mhwll uffern' yn wir ac effaith hynny ar y teulu cyfan. Nid yn unig y collodd ei fywoliaeth ond collodd ef a'i ferch eu cartrefi i dalu'r ddyled ac mae'n nhw'n dal i ddisgwyl am iawndal. Bu ei ffydd yn gynhaliaeth rhyfeddol iddo trwy'r cyfan.

Mae darllenwyr y golofn hon yn gwybod fy mod yn hoff o nofelau ditectif. Dela Arthur, pennaeth ysgol gynradd ym mhentref Nant yr Eithin yw'r ditectif amatur yn **Aur y Pridd** gan Gwen Parrot, sy'n byw ym Mryste ers blynyddoedd ond sydd â'i gwreiddiau yn Sir Benfro. Yng nghefn gwlad ardal Abergwaun y lleolir y stori a'r dafodiaith yn cyfleu hynny'n hyfryd. Digwydd yn 1948 a llwydda i gyfleu'r cyfnod gyda'i ddogni, y storio arfau yn nhwneli Trecŵn a dim prinder gweinidogion gyda'r colegau diwinyddol dan eu sang! Caiff sgerbwd ei ddarganfod gan blant ar daith ysgol ar ddechrau'r nofel ac mae dirgelwch am y corff, ymddygiad gweinidog amheus a llofrudd annisgwyl. Ceir nifer o is-gymeriadau ynddi a chefais hynny ychydig yn gymysglyd ar adegau ond mae'n hynod o ddarllenadwy a'r diweddglo yn ddramatig, fel gwylio ffilm arswyd.

Aeth brawddeg agoriadol nofel ddiweddaraf Rhian Cadwaladr, **Gwaddol** â mi ar fy union i heulwen Lanzarote gyda Delyth yn yfed coctel arbennig ar gyfer y traeth – nad enwaf yma! Dyna'r prolog pan fu farw ei gŵr, Medwyn yno yn ddisymwth. Digwydd y nofel wedyn ddwy flynedd yn ddiweddarach pan fo Delyth a'i brawd Robin yn paratoi i ddathlu pen-blwydd eu mam, Myfi yn 80 oed. Mae tyndra a chymhlethdodau rhwng aelodau eraill o'r teulu yn profi'n heriol. Llwyddir i ddarlunio'r cymeriadau hynny yn fyw a hynny'n bennaf trwy'r ddeialog fachog a thafodieithol. Mae gan yr hen wraig, y Nain, gyfrinach y mae'n ei rhannu gyda'i chymdoges Meera sydd o dras Indiaidd ac sy'n dysgu siarad Cymraeg. Fe'i darllenais bron mewn diwrnod gan fynnu gwybod hynt a helynt y cymeriadau, yn enwedig y berthynas rhwng Myfi a'i merch a'i hwyres Anna. Ceir is-gymeriadau annwyl ac ambell un, fel gwraig Robin yn gwbl wrthun. Rwy'n falch fy mod wedi gwneud ewyllys a threfnu pŵer atwrnai – oes mae tipyn i gnoi cil amdano wrth ddarllen y nofel hon sy'n ymwneud ag heneiddio, camdriniaeth, ysgariad, ac ymdopi â galar. Fel ei phedair nofel arall, mae'n ymdrin â phroblemau a chymhlethdodau ein hoes a does dim rhyfedd felly ei bod y cyfrannu at golofn ofidiau'r cylchgrawn *Golwg*.

---

## Hoelion Wyth

### Englynion coffa i John y Graig

Dyma dair englyn i goffau John Davies ( John y Graig ) fu farw ar Medi 1af yn 99 oed. Mae'n briodol i'w cynnwys gan roedd John yn un o sylfaenwyr Cymdeithas yr Hoelion Wyth – a bu yntau wastod yn barod ei gymwynas i ganghennau Hendy Gwyn a Beca. Coffa da amdano.

### I John y Graig

Â'i win a'i ffrindiau gannoedd, a'i ymroi
mor hael ym mro'i werthoedd,
hoelen with annwyl iawn oedd
ac, o hyd, y Graig ydoedd.

*Ceri Wyn Jones*

Y prysuraf ei lafur, - i'w fro hoff
Fe fu'n frawd mor ddifyr,
Yn gariad o dad fel dur,
Yn gymaint o graig, Emyr.

*Tudur Dylan Jones*

Mae craig, ac mae môr, mae cregyn, mae bae,
Mae bywyd diderfyn
Ei rod; mae ôl troednodyn
Ar draeth: mae hiraeth fan hyn.

*Mererid Hopwood*

**CYMDEITHAS YR HOELION WYTH**

Cynhelir Cyngerdd
yng Nghaffi'r Emlyn Tanygroes
ar nos Wener, Tachwedd 15fed
am 7.30 o'r gloch
yng nghwmni Côr Pam Lai
Tal mynediad - £8

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Dyma rywbeth i chi ymarfer mis Hydref.
Rhowch "YN" yn y bylchau os oes angen a chofiwch dreiglo yn ôl y galw.

Oddi wrth, *Albie*

YN? TREIGLIAD MEDDAL?

Rhowch "YN" yn y bylchau os oes angen a chofiwch dreiglo yn ôl y galw,

1. Mae'r cyfarfod ............wedi bennu.
2. Dydy'r cwrs hwn ddim ................cystal.
3. Mae'r rhyngrwyd (internet).............rhywbeth newydd.
4. Roedd e ...........cwrs da.
5. Rhaid i bawb sy ...mynd archebu tocyn ..........ymlaen llaw.
6. Roedd hi ......hoffi .........mynd.
7. Dwedodd e ei bod hi .........mynd.
8. Bydda i ......angen help.
9. Ydy'r stori ..........gwir?
10. Ydy hi .............stori wir?
11. Doedd hynny ddim .........stori wir.
12. Dylet ti ..........trio.
13. Dylen nhw .........bod .........diolchgar.
14. Mae e ..........plentyn mawr.
15. Bydd hi .......dan bwysau yn y swydd newydd.
16. Ro'n nhw .........eisiau ..........helpu.
17. Fasai'r brifathrawes a'i dirprwy ddim ...........hoffi hynny.
18. Bydde fe .............gyda ei ffrind.
19. Roedd e .........wedi gadael cyn i'r plant ..........cyrraedd.
20. Alla i ........helpu?
21. Roedd Dafydd ..........bardd enwog.
22. Roedd Sion .........arfer byw yn Abertawe.
23. Wnewch chi .........ffonio yfory
24. Dydy e ..........ddim...........dod i'r parti.
25. Mae'r ceffyl ........cryf.
26. Mae e ..........ceffyl cryf.
27. Mae e wedi dod ..........arwr i ni.
28. Dyw e ddim .........at ddant pawb.
29. Gwelais i nhw ...... mynd.
30. Dyw'r staff ........ddim .............gweithio.
31. Roedd Elfed ........bwriadu,,,,,,,,prynu car.
32. Bydd y ceffyl ...........carlamu.
33. Doedd e ..........ddim ..........diwrnod braf.
34. Roedd hi .........wedi bod ...........gweithio.
35. Dydy hi ddim ...............syniad da.
36. Roedd Heledd ...........deg oed pryd hynny.
37. Dw i ..........eisiau bod .............meddyg.
38. Mae nhw .............siarad heb.............meddwl.

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf

Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


# MERCHED Y WAWR

## Cangen San Cler

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd yn Yr Hen Ysgol ar Fedi 19fed. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eileen, yr is-lywydd.

Cydymdeimlwyd â Marian ar farwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith.

Dymunwyd yn dda i Doreen ar ôl ei llaw-driniaeth. Dymunwyd yn dda i Olive sydd wedi cael llaw-driniaeth ar ei chlun. Dymunwyd yn dda i Beti sydd wedi ymgartrefi yng Nglyn Nest.

Llongyfarchwyd Lilwen ar ddod yn 2il yn y Sioe Fawr a bod yn un o dîm Radi Thomas a ddaeth yn 3ydd.

Cafwyd ychydig o hanes y Penwythnos Preswyl a gynhaliwyd yn Llambed ar Fedi 6 – 8. Roedd Lilwen, Margaret, Rhian, Iona a Beti-Wyn wedi mynychu'r penwythnos ac wedi mwynhau yn fawr iawn. Yr holl weithgareddau wedi bod yn ddifyr a'r gwmniaeth yn dda.

Wedi gorffen y cyfarfod busnes cafwyd cwis a oedd wedi baratoi gan Marian. Bu pawb yn gweithio mewn parau a'r pâr buddugol oedd Eileen a Iona.

Rhoddwyd y wobr raffl gan Marian ac fe'i henillwyd gan Beti-Wyn. Diolchodd Annalyn i bawb am eu presenoldeb ac i Eileen, Marian a Sue am eu gwaith.

Cynhaliwyd cyfarfod Hydref ym Methlehem Newydd ar Hydref 8fed. Croesawyd pawb gan yr is-lywydd Eileen. Cydymdeimlwyd â Janet ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith, Dewi Lewis ac â Rita ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith Morwen James. Llongyfarchwyd Annalyn ar ei phenblwydd yn 70 oed. Braf, hefyd, oedd cael Doreen nôl yn ein plith yn dilyn llaw-driniaeth. Darllenwyd cerdyn post oddi wrth yr Urdd yn diolch am y cyfraniad i helpu plentyn gael gwyliau yn Llangrannog.

Croesawyd Nia Bowen o Rydargaeau nôl atom, y tro hwn i gynnal sesiwn Ioga Cadair. Cafwyd awr ddifyr iawn yn dysgu sut i fyfyrio a gwneud ymarferion tra'n eistedd neu defnyddio'r gadair. Roedd pawb wedi mwynhau ac wedi ymlacio erbyn diwedd y sesiwn. Diolch i Nia am fod mor hawddgar wrth gyflwyno. Diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Rhian. Paratowyd lluniaeth gan Janet, Eirwen a Sharon. Rhoddwyd y wobr raffl gan Beti-Wyn ac fe'i henillwyd gan Margaret Rees.

Byddwn yn cyfarfod nesaf yn yr Hen Ysgol ar Dachwedd 12fed am 7 o'r gloch.

## Cangen Beca

Ar ddechrau'r tymor newydd cawsom brynhawn hyfryd yng nghwmni Eluned Jones, Abercych wrth iddi siarad a dangos lluniau am ei theithiau i Batagonia dros y blynyddoedd. Mae hi bellach wedi cychwyn ar ei thaith yno eto, dymunwn siwrnai dda iddi.

Ann Thomas enillidd y raffl misol, a byddwn yn croesawu Angharad Edwards o Llaeth Preseli a Gelato atom y mis yma i siarad am ei gwaith.


## Cangen Hendygwyn

Fe ddechreuon ni'n tymor eleni ar Fedi'r 19eg drwy fynd i ymeld â Nia yn ei chartref ym Mhentre Celyn, Ffynnonddrain ger Caerfyrddin. Cawsom groeso cynnes iawn i ymuno â hi yn ei chegin moe-thus lle wnaethon ni fwynhau gwylio a gwrando arni'n olrhain hanes ei rhieni, Jenny a Hedydd Siop y Seld gynt.

Wyres ffatri wlan y Cambria, Drefach Felindre oedd Jenny a sadler oedd Hedydd. Yn ffair Castell Newy' gwrddodd y ddau ac ar ôl priodi aethon nhw i re-deg siop sadler yn Nhonypandy a dyna lle ganwyd Nia a'i chwaer Nerys (sy'n adnabyddus i bawb fel cogydd).
Wedyn cawsom ein tywys i'r hen sied ddefaid sy wedi ei thrawsnewid erbyn hyn i fod yn gaffi ac yn siop i werthu cynnyrch Bodlon. Ar ôl mwynhau te

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES Y GWRES A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com


T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

prynhawn hyfryd, buon ni'n mwynhau pori yn y siop ac aeth prin neb gartre oddi yno'n waglaw!

Diolchodd Margarette yn gynnes iawn i Nia am brynhawn pleserus dros ben gan atgoffa pawb bod ein cyfarfod nesa' yng Nghanolfan Hywel Dda ar Hydref 15fed am 3 o'r gloch pan fydd Guto Llywelyn yn dod i'n diddanu.



Aelodau'r gangen ym Mhentre Celyn

**Cangen Gronw**

Ail ddechreuwyd y tymor newydd ar brynhawn Iau, Medi 28ain. Braf oedd ail ymgynnull a daeth nifer o'r aelodau ynghyd gydag ymddiheuriadau am absenoldeb wrth rhai eraill. Swyddogion am y tymor ydynt yn Llywyddion - Susan, Valerie, Wenfys, Meinir, Llinos a Rhiannon; Ysgrifenyddesau - Meinir a Mary, ac yn Drysoryddes Meirwen. Diolch i bob un am ufuddhau i'r dyletswyddau. Susan oedd y Llywydd yn y cyfarfod hwn a chyfeiriodd at nifer o'r aelodau a fu'n dathlu rywbeth personol, yn enwedig i Marion a Winston ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt. Dymunwyd gwellhad buan i Eirwen a Tegwen sydd wedi bod yn yr ysbyty am driniaeth, a dymunodd yn dda i Jane sydd bellach gartre'n Penddol. Cydymdeimlwyd â Eirwen Robinson ar farwolaeth ei thad yng nghyfraith.

Wedi cyfarfod busnes pleser o'r mwyaf oedd croesawu'r wraig wadd am y pnawn sef Mrs Annalyn Davies o Fancyfelin a sydd yn adnabyddus dros ardal eang. Mae ganddi deitlau di-ri, yn fam, yn gyn brifathrawes, Cadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynnwyr, Swyddog Cymunedol Bethlehem Newydd, Maeres San Cler a Bancyfelin ac yn Llywydd Merched y Wawr Sancler. Hefyd mae'n bregethwraig lleyg yn gwasanaethu ardal eang. Ble mae'n ffeindio amser i wneud popeth mae'n ei wneud mae'n anhygoel, ond mae yn llwyddo'n anrhydeddus Mae ei brwdfrydedd a'i hymroddiad yn hollol heintus ac yn ysbrydoliaeth. Treuliwyd brynhawn hyfryd yn ei chwmni a chawsom hanes ei hymrwymiad a'i gwaith yn Nhŷ Croeso, Bethlehem Newydd yn gwneud cymaint o brosiectau yn helpu gwahanol sefydliadau. Ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio ar gefnogi'n ymarferol Lloches i Fenywod ac yn casglu nwyddau angenrheidiol iddynt. Hefyd gwnaeth siarad am ei gwaith fel Maeres. Mae mor frwdfrydig am ei holl brosiectau ac yn ymroi cant y cant i bopeth.
Diolchwyd i Annalyn a dymunwyd yn dda iddi i'r dyfodol.

Gwenda a Rhiannon oedd yng ngofal y te a'r raffl ac enillwyd y raffl gan Llinos. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 23ain a 'Canhwyllau Cain' fydd cyflwyniad ein gwahoddedigion gyda'n Cinio Nadolig ar Ragfyr 11eg yng Ngwesty'r Hebog, Caerfyrddin.



Mrs Annalyn Davies yng nghwmni Susan Davies, Llywydd y mis, Mary Phillips a Meinir Eynon, Ysgrifenyddion.

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159
GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

# COFIO YSGOL CWMBACH

Carwn rannu rhai atgofion sydd gennyf o fy nyddiau cynnar yn yr ysgol yn Cwmbach o 1948 tan 1955. Fe gofiwch rwy'n siwr yr adeg hynny roedd rhai disgyblion yn aros ymlaen yn yr ysgol hyd at oedran gadael, a'r rhai oedd wedi llwyddo mewn arholiad yn unarddeg oed yn gadael naill a'i i Ysgol Ramadeg Hen dy Gwyn neu Gaerfyrddin. Felly roeddem ni yn ystafell y babanod yn ofnus iawn o'r bois a merched hynaf yma. Gofynnaf ymlaen llaw am faddeuant os byddaf wedi anghofio rhai enwau achos rwy'n ceisio cofio yn ôl saith deg chwech o flynyddoedd nawr.

Enwaf y plant rwy'n cofio yn ộl trefn yr wyddor a pan fo dau neu dri o'r un teulu rhestrir hwynt gyda'i gilydd.

Alun a Luned Lamb, Beryl Troedrhiw, Brian Crosher, Dai Elwyn, Diana Cilsant, Del Pentairhyw, Denzil Ffosyffwrn, Eirian a Gareth Penrallt, Gareth Bancvilla, Gareth a Vana Bwmper, Gareth Butler, Idris Cwmcoch, Ken a Mair Sarne, Lloyd Waunfawr, Mary a Tomos Trehws, Meurug Danrallt, Myrddin a Vanna Maesygrove, Seimon Parcybedw, Nan Felin, Nesta Boars Head, Terry Tynewy a Winnie Ffynnonwen. A gallai ddweud wrtho chi yr oeddwn i a llawer un arall yn casau y flwyddyn neu ddwy gyntaf yn yr ysgol a pan fydden i yn bersonol yn cerdded allan drwy'r ystafell fawr i'r tŷ bach bydden ni yn cerdded yn araf heibio y rhes flaen a gofyn i fy mrawd, "sawl awr sy to" a byddai yntau yn dweud dim ond dwy bob tro, er efallai byddai hyn yn y bore.

Amser digon tawel oedd hi yn yr ystafell fach dan ofal Miss Jones. Cael chware â clau a crayons am ychydig wythnosau a wedyn dechre dysgu darllen gan ail ddweud pethau fel. Y mae ci ar y mat. Y mae cath ar y mat drosodd a throsodd. Yna dechre dysgu penillion bach oedd yn mynd rhywbeth fel hyn.

Hwch a chwech o foch.
Hwch yn canu'n groch.
Soch soch soch am fwyd i gyd,
Moch bach gorau yn y byd.

….hefyd canu.

Pit pat pit pat medd y glaw.
Ar y ffenest yn ddidaw.
Un dau tri dawnsio'n ffri.
Medd y dyfnau bach diri.

Ond roedd bach mwy o fwrlwm yn yr ystafell ganol a Miss Thomas yn dysgu, ar atgof mwyaf byw sydd gennyf fan hyn oedd ymweliad y deintydd bob blwyddyn ac os nad oedd eich rhiant wedi dweud ymlaen llaw nad oedd tynnu'r dannedd pwdwr i fod, mas o nhw yn cael dod. Hefyd roedd ymweliad gan yr 'Health Inspector' a dyna brofiad rhyfedd oedd gorfod aros o flaen y ddynes oedranus yma a hi yn gosod ei llaw mewn man preifat iawn a dweud 'cough please'.

Ond erbyn cyrraedd yr ystafell fawr ni oedd y seniors erbyn hyn ac ychydig bach yn fwy ewn a mentrus. Y prif athro oedd Jim Davies, athro da ond strict a hoffus iawn o'r gansen fel cewch wybod yn y man.

Disgyblion yr ystafell fawr bryd hynny oedd Ann ac Iwan Yetwen, Bill a Sylvia Blaenllain, Betty, Dil ac Iris Elwyn, Brenda Sarnau, Dai Dan Penhenrhiw, Dai Shop, Dec Rhydfowr, Dens Danrallt, Def a Len Glynelwyn, Dilys Castellmawr, Doreen a Lloyd Trehws, Dorri Cwmcoch, Ec Boars Head, Gar Pentairhiw, George a Phyllis Rhydgoch, Glyn Cwm Lenri, Haydn Pilmawr, Hubert Ffosyffwrn, Hazel Ficarage, Jams Myrtle, Marion Butler, Meurig Banc Villa, Pete Crosher, Sally Myrtle, Sylvia Felin a Vanna Lamb.

Un digwyddiad sy'n aros yn y cof yw pan oedd Jams Myrtle wedi dod a darn mawr o'r platiau

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

shalc fyddech yn ennill yn ffair San Cler gydag ef i'r ysgol. Wel ar y ffordd adre y noson honno ar ôl mynd heibio Belle View sef cartref Mr Davies dyma Jams yn ysgrifennu mewn ysgrifen bras mawr ar yr heol.

Ro ra, ra rin, pwy ga ma Jim, a ffwrdd a ni tuag adre gan chwerthin. Y bore wedyn peth cyntaf ddigwyddodd oedd galw bois Gellywen mas o flaen y ddesg a gofyn pwy oedd wedi ceisio barddoni ar yr heol fawr. Neb yn barod i gyffesi, ac wrth gwrs wedyn y gansen i bob un ohonom.

Un tro wedyn gan ein bod yn cerdded i'r ysgol ambell waith fydden yn cael lifft ar y lori laeth a chyrradd yn fore iawn. Adeg hynny Tegwen Lamb oedd y cook a bydde hi yn agor drws yr ysgol fel galle ni gysgodi os yn bwrw glaw. Dyma'r adeg yr oedd peli plastig mawr maint pêl droed wedi ei dosbarthu i'r ysgolion. Dyma ddechre cicio rhai o'r peli ma yn yr ystafell fawr gan fod hanner nesa at y drws yn wag. Aeth un or peli i fewn i'r tanc dwr oedd ar gyfer y gwresogydd ond oedd hi ddim i'w gweld o'r llawr a dyna lle buodd hi am fisoedd. Ond yn waeth na hynny dyma un o'r ddau fap enfawr oedd yn hongian uwchben y ddau ddrws i fewn i'r ystafell yn torri yn hanner a syrthio i'r llawr. Lawr at Tegwen a gofyn iddi beth allen ni wneud. Dewch a ffwrwm draw ma medde hi a dyma hi yn gosod yr hanner map i hongian dros pibell y gwresogydd fel ei fod yn edrych fel pe bae wedi syrthio yn ystod y nos. Safion heb y gansen y bore hwnnw, ond sylwodd neb fod y map yn hongian yn uwch na'r toriad a dyna ryddhad pan ddaeth y gorchymyn i'w dynnu i lawr er mwyn ei drwsio.

Adeg arall wedyn oedd y cyfan o ni'r bechgyn o'r ystafell fawr wedi mynd i chware cwn hela. Un yn gadno a'r lleill yn chwilio amdano. Allan o'r iard a draw am y siop a lan heibio sied Jack y Felin, wel fe allwch ddychmygu oedd dim dod yn ôl i'r ysgol mewn pryd i fod ac wrth gwrs y gorchymyn cyntaf pan ddychwelon ni oedd i ni gyd sefyll mewn rhes o flaen y ddesg, ond fe safodd Roy Blaenpant, yr unig un o'r ystafell ganol a ddilynnodd ni wrth y drws a llefen, a phan welodd Mr Davies e dyma fe yn gweud wrtho, "Dere di Roy bach nid arno ti oedd y bai." Bu lot o dynnu ei goes ar ôl hynny a'i alw yn pet Jim y Sgwlyn. Ond cansen oedd i bob un arall.

Tua 11.00 or gloch bob bore bydden yn cael poteled o laeth i yfed a bydden ni y bois i gyd yn sefyll mewn grŵp gyda'n gilydd a bron bob dydd bydde rhywun yn cael pwl o chwerthin a llond ceg o laeth yn tasgu dros y lle. Cansen i bawb wedyn wrth gwrs. Tro arall wedyn roedd rhai ohonom wedi bod yn chware ar y iard cyn bwrw am adre gan feddwl wedyn bod Mr Davies wedi mynd adref, dyma gar Penteirw yn croesi'r afon rhwng yr ysgol a'r siop a taflu fale allan ato ni a oedd yn sefyll ar yr heol. Dyma fe yn gweiddi nerth ei lais "Byse Jim yn gweld ni nawr sdim ishe gofyn beth gelen ni am wneud hyn" a gyda ni ma Mr Davies oedd heb fynd adref yn sefyll tu ôl i ni a martsho ni gyd yn ôl i'r ysgol am gansen eto.

Wrth edrych yn ôl dwi ddim yn credu fod y gansen wedi gwneud niwed i un ohonom ac efallai dim lles chwaith ond rwy'n siwr 'roedd mwy o barch gyda ni at athrawon y dyddie hynny nag y sydd heddiw.



Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SIÔN HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED
FFÔN:-
01994 240857

# Pwll Trap

Dymunwn yn dda i Adrian ac Abbie Bowen, Mayfield ar eu priodas yng Ngŵyr ym mis Medi.

Cydymdeimlwn â Jim a Mair Davies, Gorsfach a Vi a Dewi Williams, Gelli ar farwolaeth eu chwaer yng nghyfraith, sef Mary Davies o Tavernspite.

**Bethlehem Newydd**

Cydymdeimlwn â Huw a Janet Lewis, Pennant a Delyth a Roddy Thomas, Gerddi Mair a'r teulu oll ar farwolaeth efaill Delyth a brawd Huw, sef Dewi Lewis, Cwmffrwd (Pencoed Llanddowror gynt) a fu farw yn 61 oed ddechrau Hydref.

Cydymdeimlwn, hefyd, â Don a Rita James, Hafan Hedd, ar farwolaeth eu chwaer yng nghyfraith, Morwen James oedd yn enedigol o Tegryn.

Ar Fedi 22ain cafwyd oedfa hyfryd yng nghwmni'r Parch. Euros Jones Evans. Yna ar Fedi 29ain Annalyn oedd â gofal yr oedfa a bu'n son am ei phrofiad yn ymweld âg Eglwys Penrhys yn y Rhondda a'r gwaith arbennig mae'r eglwys honno yn ei wneud yn y gymuned. Profiad emosiynol ac ysbrydoledig oedd clywed yr hanes.

Ar Nos Iau, Hydref 3ydd cafwyd noson yng nghwmni Delwyn Sion a Myfyr Isaac, hefyd Daniel O'Callaghan. Roedd llawr y capel yn llawn a chafwyd gwledd wrth wrando ar yr hanesion y tu ôl i rai o ganeuon Delwyn Sion a'i glywed yn eu canu gyda chyfeiliant gwefreiddiol Myfyr Isaac.



Portreadwyd Owain Glyndwr mewn cymeriad yn raenus gan Daniel, O'Callaghan, y perfformiad a wobr-



wywydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda, Cynon Taf. Daeth â Owain Glyndwr yn fyw i ni!

Noson i'w chofio yn wir! Diolch i bawb, hefyd, a gyfranodd at Apêl Digartref Sir Gaerfyrddin. Codwyd £300.



Cafwyd oedfa hyfryd ar y thema Distawrwydd ar fore Sul, Hydref 6ed. Cymerwyd rhan gan nifer o'r aelodau cyn y gweinyddwyd y Cymun gan y gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas. Cyfeiliwyd gan Dai Rees.



Pleser oedd cael cwmni Cynwyl ac Eilir Davies yn yr oedfa, hwythau wedi symud i Meisgyn dros yr haf. Cyflwynodd y gweinidog hwy a rhodd ar ran yr Eglwys i ddiolch am eu cyfraniad helaeth i Fethlehem Newydd dros y blynyddoedd. Roedd Rhys wedi creu bwrdd, powlen a phen ysgrifennu hyfryd iawn allan o bren y

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.***
***Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

côrau a dynnwyd allan wrth adnewyddu'r capel ac fe'u cyflwynwyd i Cynwyl ac Eilir mewn gwrthfarwogiad o'u cyfraniad i'r Eglwys.
Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd cinio blasus yn Yr Hen Ysgol.

**Tŷ Croeso**
Mae Croeso Cynnes yn dal i'w gynnal bob bore Mawrth ac yn profi'n boblogaidd iawn. Ar fore Mawrth, Hydref 1af, cafodd Annalyn sioc pan gafwyd cacen arbennig a chanu, hefyd cyflwynwyd blodau i ddymuno penblwydd hapus iddi yn 70 oed drannoeth. Roedd aelodau o Sefydliad y Merched hefyd yn bresennol a Grŵp Crefftio San Cler.





Mae'r capel wedi bod ar agor ar ddau fore Sadwrn i dderbyn nwyddau hylendid i Lloches Caerfyrddin a dillad i Coda Ni. Diolch i bawb a fu'n helpu ac a alwodd i fewn â nwyddau. Diolch arbennig hefyd i Pethau Olyv a Mols Bistro am gynnig derbyn nwyddau i'r elusennau hyn.



Galwodd Amanda o'r elusen Digartref Sir Gaerfyrddin fore Sadwrn, Hydref 5ed ac esboniodd a chreu arddangosfa o'r cymorth mae'n nhw'n ei ddarparu i'r di-gartref sy'n cynnwys cot a ellir ei throi yn sach gysgu, trowsus cynnes, pabell fach, mat i waelod pabell, stof primus ac offer hylendid ac ychydig fwyd. Braf fod £300 ynghyd â 5 taleb Greggs a nwyddau hylendid elfennol sydd yn rhan o'r pecynnau i'r digartref sy'n byw ar y stryd, wedi ei gyfrannu eisoes at yr elusen hon.

## MEIDRIM

**Henoed**
Bu'r cyfarfod diwethaf yn Neuadd Ieuenctid Meidrim pan ddaeth plant Ysgol Meidrim i'n diddanu. Cawsom brynhawn hyfryd yn gwrando arnynt yn canu.
Diolchwyd iddynt gan Meirion Morris.

Ar Dachwedd 5ed bydd ein cwrdd Diolchgarwch dan ofal Ann Evans. Wrth y tê - Lilian Rees, Jean Howell, Shirley Bowen a Meirion Morris.

## LLANBOIDY

**Sefydliad y Merched**
Cyfarfu'r aelodau yn y Clwb Chwaraeon ar y 12fed o Fedi o dan lywyddiaeth Denise Harris. Croesawodd y gwestai sef Delyth Robinson sy'n rhedeg ei busnes Sebon Mootiful o'i chartref, Fferm Rhydcaernarfon, Llanwinio ac yn gweithio'r cynnyrch naturiol gyda llaeth o'r fferm. Diolchodd Denise iddi am noson ddiddorol. Enillydd y gystadleuaeth am eitem a wneuthpwyd gan yr aelodau tra'n yr ysgol oedd Nia Davies, a Denise enillodd y raffl. Bydd y cyfarfod Grŵp yn Meidrim ar Hydref 12fed am 2 o'r gloch.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

**Chwaeroliaeth**
Daeth yr aelodau ynghyd ar brynhawn Mercher, Medi 18fed gyda Wenfys yn y gadair. Croesawodd pawb i gyfarfod cyntaf y tymor a bu'n croesawu aelod newydd sef Rhiannon Davies a chroesawu Ivy Phillips nôl wedi iddi dorri ei phigwrn. Bu hefyd yn llongyfarch Sara merch Rhiannon ar ei phriodas yn ddiweddar ac hefyd Merle a Rose, y ddwy wedi dod yn hen-famgu unwaith eto. Roedd Wenfys a Delyth wedi trefnu cwis i'r aelodau a chafwyd hwyl yn gwneud geiriau allan o'r gair 'CAERFYRDDIN'. Cafwyd te a danteithion o dan ofal Wenfys a Delyth. Prynhawn cymdeithasol hyfryd.

**Gwellhad**
Da yw clywed bod Raquel Phillips, Heddfan llawer yn well wedi iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Trinity a Sant Brynach**
Ymunodd aelodau Trinity a Sant Brynach yn yr eglwys ar gyfer gwasanaeth diolchgarwch ar y cyd, gyda phregeth bwrpasol gan y gweinidog y Parchedig Guto Llywelyn. Yn dilyn oedfa hyfryd fe wnaeth pawb gymdeithasu dros gawl a tharten afalau. Bore hyfryd a diolch i bawb o'r eglwys am eu croeso.





Cymdeithasu ar ôl y Cwrdd Diolchgarwch

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau i Lowri Phillips ac Emyr Davies ar ei priodas yn Eglwys Sant Brynach, Llanboidy ar Awst 31ain. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

# EFAILWEN

Cydymdeimlwn yn fawr ag Elfed James wedi iddo golli ei wraig Margaret ddechrau mis Medi. Estynnwn ein cydymdeimlad i Llinos Seton, ei merch, a'r teulu oll hefyd.

Penblwydd hapus i Janet Harries, Roseberry, Efailwen, ar gyrraedd penblwydd arbennig yn ddiweddar.

### Hoelion Wyth - Cangen Beca

Croesawyd yr aelodau nôl i flwyddyn arall o weithgareddau gan ein Cadeirydd, Eifion Evans. Cyflwynodd ein siaradwr gwadd sef Cleif Harpwood sy' bellach yn byw ym Moncath ac yn adnabyddus i bawb fel cyn prif-leisydd y band roc Edward H Dafis.



Hanes ei fro mebyd sef ardal Cwmafan oedd ei destun. Yn gyntaf dangosodd fap oedd yn dyddio 'nôl i'r trydedd ganrif ar ddeg oedd yn dangos rhanbarth Afan rhwng rhanbarthau Nedd a Margam, Erbyn hyn mae'r rhanbarth wedi uno ac ehangu. Mae'r cwm yn ymestyn o'r mor yn yr Aberafon presennol i fyny tuag at Ponrhydyfen ac yma yn troi i'r dwyrain i gyfeiriad Cymer. Yr unig gwm yn Ne Cymru sy'n mynd o'r Gorllewin i'r Dwyrain yn hytrach na'r Gogledd i'r De.










Ar ôl y cyfnod Normanaidd, melinau gwlân oedd prif ddiwydiant y cwm gyda tua 300 o drigolion yn byw yno. Gydag amser dechreuodd diwydiannau trymach megis cloddio am lo a mwyn gloddio am haearn a chopr. Cwmafan oedd y lle cyntaf ym Mhrydain i'r cwmni byd enwog Rio Tinto fwyn gloddio yno. Aeth poblogaeth yr ardal i fyny i 3500 dros ugain mlynedd yn ystod y cyfnod yma ond dinistriwyd yr amgylchfyd a dŵr yr afon.

Cawsom hanes bardd o'r bymthegfed ganrif sef Ieuan Gethin a drigai ym Maglan yna darllenwyd rhai o'i gerddi, un cerdd oedd yn cyhuddo ei gymydog o ddwyn ei fêl ac un arall oedd ar ffurf cais cynllunio at Esgob Llandaf.
Soniodd hefyd am Richard Lewis – neu Dic Penderyn (Penderyn gan mae Penderyn oedd enw ei gartref ac nid y pentref Penderyn yng Nghwm Cynon) Cafodd ei grogi ar gam ar gyhuddiad o lofruddio dyn yn ystod terfysg Merthyr. Claddwyd ym mynwent yr Eglwys Santes Fair ger Aberafon. Nid oedd yn arferol i rhywun oedd wedi ei ddienyddio gael ei gladdu mewn mynwent sanctaidd ond roedd hyn yn eithriad i'r rheol.

Darllenodd ambell bennill ddigri oedd wedi tarddu o'i ardal enedigol hefyd. Cyn gorffen talodd deyrnged i'w hen gyfaill a'i gyd-aelod o'r band Edward H Dafis sef Dewi Pws Morris a bu farw yn ddiweddar. Roedd tri aelod o'r band yn hanu o ardal Cwmafan sef Cleif, John Griffiths ac Hefin Elis.

Cawsom noson hwylus a difyr yn ei gwmni a diolchwyd iddo gan Eifion. Diolch hefyd i Robert am ddefnydd y lleoliad ac am ddarparu'r cawl arferol ar ein cyfer.



Cleif Harpood yng nghwmni Eifion Evans, Ken Thomas ac Eurfyl Lewis.

# HENLLANFALLTEG

***Penblwydd Hapus***




70 oed

Fe ddaeth y dydd i ddathlu
Penblwydd yn 70 oed.
I nodi'r dydd fe aeth ar daith
Ar injan stêm drwy'r coed.

Pob un yn ishte'n daclus
A John oedd y "King Pin",
Fe ganwyd "Penblwydd Hapus"
A phawb yn syllu'n syn.

Ymlaen yr aeth e wedyn
I fwyta yn "Bel Ffoi"
Ond roedd 'na syrpreis bach arall
Yn aros i'r hen foi.

Meddyliodd fod 'na bractis côr
Ond nid oedd y noson hon!
'Mond dished de a chacen
"Penblwydd Hapus i ti John!"
(Anhysbys)

*Dymuniadau gorau i John Cilhengroes oddi wrth y teulu a'r ffrindiau oll.*

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth Cyflogau
Cadw Cyfrifon Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**



Braf oedd cael croesawu'r gantores hynod dalentog Lleuwen Steffan i'r Tabernacl, Hendy-gwyn ar gyfer noson wefreiddiol yn trafod hen emynau coll Cymru. Canwyd nifer o'r hen emynau yma yn ogystal â chlywed lleisiau o'r gorffennol yn ei hadrodd mewn noson fythgofiadwy. Os na chafodd rhywun gyfle i'w gweld bydd Lleuwen yn y Tabernacl, Menclochog ar Dachwedd 17eg am 6.30 ac yng Nghapel Bethlehem Newydd, Pwlltrap ar Dachwedd 18fed am 7.00. Mynediad am ddim i bob perfformiad.

Rydym 'back to normal' ym mywyd y capel erbyn hyn a gweithgareddau'r gaeaf wedi ail-ddechrau.



Mansel ac Eirlys Phillips gyda Meurig James, y cadeirydd yn y canol.

Eirlys a Mansel Phillips oedd y gwesteion gwadd yng Nghymdeithas y Tabernacl a chafwyd prynhawn hyfryd yn eu cwmni wrth iddynt drafod hanes 'Dawnswyr Talog' ar hyd y 40 mlynedd diwethaf.

Mae Grŵp Trafod y Beibl wedi ail-ddechrau erbyn hyn. Byddwn yn dechrau edrych ar Lyfr Ruth cyn hir a dyma amser da i aelodau newydd ymuno gyda ni. Rydym yn cwrdd y tymor yma yn 'Tŷ Croeso' Bethlehem Newydd, Pwlltrwp.



Grŵp Trafod y Beibl

## *Penblwydd hapus yn 90 oed*



Roedd un o'r aelodau sef George Bancroft yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar a phob dymuniad da iddo wrth bawb yn y capel.


the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

Mae'r Clwb Hwyl i'r plant ar nos Wener am 3.30 yn parhau yn llwyddiant mawr.

Ac yn olaf rydym wrthi yn arbrofi'r misoedd nesaf yma gydag oedfaon am 10.00 a 11.15 ( yn lle 9.30 a 11.00).

Beth am ymuno gyda ni'r misoedd nesaf yma? Gallwch gael hanner awr mwy yn y gwely a dal mynd i'r cwrdd! Dyma drefn yr wythnosau nesaf :

Bob Gwener am 3.30 : Clwb Hwyl y Tabernacl
Tachwedd
3ydd : 10.00 : Oedfa Gymun
10fed : 11.15 : Oedfa
17eg : 10.00 : Oedfa dan ofal Orinda Roberts
24ain : Oedfa a phaned i ddilyn

## Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Gruffudd Davies, Y Berllan, Heol y Gogledd, Hendygwyn-ar-Daf, ar dderbyn gradd BA Hanes o Brifysgol Caerdydd.

## Hoelion Wyth – Cangen Hendygwyn

Newidwyd y drefn ar gyfer cyfarfod mis Hydref pan benderfynwyd i fynd fel cangen i wrando ar Delwyn Sion ym Methlehem Newydd, Pwll Trap.

Cafwyd noson ddifyr dros ben wrth i Delwyn Sion olrhain hanes ei fywyd ac yn canu rhai o'i ganeuon cofiadwy gyda chymorth y cerddor Myfyr Isaac ar y gitar. Hefyd, cafwyd eitem wych gan Daniel O'Callaghan.

## Enillwyr Clwb Cant
## Cymdeithas Hywel Dda - Mis Gorffennaf

| | |
|---|---|
| 1af: | Matt Rogowski -£60 |
| 2il: | David Gillard - £50 |
| 3ydd: | Linda Bell - £40 |
| 4ydd: | Pat Price - £30 |

# GELLYWEN

**Ainon**
Cynhaliwyd ein oedfa ddiolchgarwch eleni ar nos Fawrth, Medi 24ain. Cawsom neges ddiddorol iawn gan y Parchedig Sian Elin Thomas am y bartneriaeth sydd rhwng dyn a Duw, pan yn ymwneud a'r broses o gynhyrchu ein lluniaeth o'r hedyn i'r plat.
Byddwn yn anfon swm o £200 i MS Cymru, sef rhoddion y casgliad ac ychwanegiad oddi wrth Ainon.

# LLANGYNIN


**Cydymdeimlad a Diolch**
Unwaith yn rhagor rhaid cydymdeimlo â nifer o drigolion yr ardal sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Rydym yn cydymdeimlo â  Neil a Mary Edwards, Pleasant View, a'r teulu i gyd, yn eu profedigaeth o golli chwaer Neil, sef Margaret James o'r Efailwen. Dymuna Neil a Mary ddiolch yn ddiffuant  i gymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Bu'r cardiau, y galwadau ffôn a'r ymweliadau yn gysur mawr i'r teulu yn eu colled.

Cydymdeimlwn hefyd â Roy Reynolds, Tymore, ac â Llinos a Geraint, Carreglwyd, ar farwolaeth chwaer-yng-nghyfraith a modryb, sef Mary Davies o Dafarnspeit. Cofiwn am bob un o 'r teulu yn eu colled.

**Gwellhad buan**
Mae'n dda gweld Don Phillips, Gorwelion, a Tom Holliday, Afallon, yn ôl adref o'r ysbyty, wedi i'r ddau ohonynt dderbyn llawdriniaeth i'w llygaid yn ddiweddar. Pob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i'r ddau.

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**
Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cymdeithas Gymraeg Llangynin yn y Bryn nos Fercher, Hydref 9fed a chafwyd noson lwyddiannus yng nghwmni'r siaradwr gwadd Wyn Gruffydd, y sylwebydd rygbi a chwaraeon. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando ar ei storiau a chafwyd







llawer o hwyl a chwerthin. Roedd 24 yn bresennol ac mae 34 o aelodau wedi talu aelodaeth am y flwyddyn.

Bydd y cyfarfod nesaf am 7 o'r gloch nos Fercher, Tachwedd 13eg, a'r siaradwr gwadd fydd Mr Peter Hughes Griffiths.

Os hoffech chi ymuno â'r Gymdeithas Gymraeg y tâl aelodaeth yw £10 am y flwyddyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Elfed Lewis, Cadeirydd – 07836 0327769, Caroline Jones, Ysgrifennydd – 07854 004478 neu Kevin Roberts, Trysorydd – 07747 847804.



Rhai o'r gynulleidfa yn mwynhau gwrando ar Wyn Gruffydd y siaradwr gwadd.







**Clwb 60** (Medi)

Cyfarfu'r Clwb ar brynhawn Iau, y 12ed o Fedi yn Neuadd Capel y Bryn pan ddaeth nifer teilwng iawn o'r aelodau ynghyd. Croesawyd y gwestai gwadd sef y Bonheddwr Tweli Griffiths gan Les y cadeirydd. Treuliwyd orig o adloniant pur yn ei gwmni pan rannodd rai o'i brofiadau tra'n gweithio yn y byd darlledu gyda'r radio a theledu. Soniodd am beth o'i amser yn y Dwyrain Canol ac hefyd yn Ne'r Affrig. Roedd yn amlwg hefyd bod Ethiopia yn agos at ei galon ac yn un o'i hoff lefydd dramor gyda'i ymweliad cyntaf yn 1985. Cawsom straeon luosog am ei waith a'i gyfrifoldebau tra'n ffilmio ac fel oedd cymaint i'w gyflawni mewn amseroedd penodedig.

Wedi ymddeol mae wedi ymddiddori mewn byd hollol wahanol wrth droi tuag at fyd hud a lledrith. Gwnaeth siarad am yr arall fyd yma a gwnaeth driciau gyda'r ciwbiau riwbic. Cawsom wledd yn y prynhawn hynod ryfeddol yma a diolchwyd i Tweli am rannu ei atgofion a'i abenigedd a ni. Mae'n dal i fod yn brysur am y gwelwn ef yn eithaf aml ar S4C. Da cael bod yno.
Rose a Rhian oedd yng ngofal y te a Rita enillodd y raffl.

**Clwb 60** (Hydref)

Ar brynhawn hyfryd hydrefol ar Hydref y 10ed daeth cynulleidfa dda ynghyd i'r gwasanaeth diolchgarwch yn









Neuadd Capel y Bryn. Y cennad am y prynhawn oedd Mr Nigel Davies, brodor o'r pentref, wedi'i eni a'i fagu a byw a magu teulu yn y pentref' a'i wreiddiau'n ddwfn ym mro ei febyd. Cawsom ein gwefreiddio gan ei neges oedd mor ddiddorol wedi'i seilio ar y Deg Gwahanglwyf a bod yn ddiolchgar ar bob adeg. Bu'n llwyddiannus iawn yn ei gyflwyniad dwyieithog gyda help technegol a ddangosai ddilyniant gweledol ar sgrin. Eifiona oedd wedi dewis yr emynau ac yn chwarae'r organ. Roedd yn oedfa fendithiol a da oedd cael bod yno. Penderfynwyd eleni i wneud casgliad ymarferol o nwyddau ymolchi tuag at Loches Menywod o dan arweiniad Mrs Annalyn Davies sy'n Swyddog Cyswllt ym Methlehem Newydd ym Mhwlltrap.

Wedi'r oedfa cafwyd dished a byns, a phancws a phice ar y maen cyn cael cyfarfod busnes. Y tair yn gyfrifol am y te oedd Mary a wnaeth y byns, Eifiona a wnaeth y pancws a Menna a wnaeth y pice ar y maen. Lluniaeth blasus iawn a diolch iddyn nhw.

# SAN CLER

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Geoff Morse, Gerddi Mair. Bu'n gweithio gyda'r Bwrdd Trydan tan ei ymddeoliad a roedd yn weithgar gyda nifer o fudiadau yn y dref. Cydymdeimlwn â'r plant, Adrian, Owen, Kathy, Alison a Stephen a'u teuluoedd yn eu galar.

Cydymdeimlwn hefyd â Dorian a Christine Anthony a'r teulu, Teras Herbert. Bu farw brawd Dorian yn ddiweddar, sef Eric Anthony o Lwyndrain.

Hefyd bu farw Keith Rooney o Gerddi Mair, gynt o Maescrwn, Meidrim. Cydymdeimlwn a'i wraig, Audrey a'r teulu ar eu colled.

Bu farw chwaer yng nghyfraith Vaughan James, Tŷ Canol, sef Margaret James o Efailwen. Cydymdeimlwn ag ef a'r teulu.

### Elfan Dan Griffiths



Llongyfarchiadau i Elfan Dan Griffiths ar ennill ei gap pêl-droed Rhedeg Cymru ar gyfer Cwpan y Byd Pêl-droed Masters ym Manceinion ym mis Mai. Chwaraeodd yn erbyn Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, UDA, y Swistir, Denmarc, Awstralia, Lloegr a Hwngari. Daethant yn 4ydd yn gyffredinol yn y gystadleuaeth.

## Clwb Ffermwyr Ifanc San Cler

Cynhaliwyd cinio dathlu 85 mlynedd CFfI San Cler ym mis Medi yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin. Pleser oedd cael cwmni Annalyn Davies, Maer San Cler, i offrymu'r gras. Roedd Sion Evans, Cadeirydd y Sir, yn bresennol hefyd. Y siaradwr gwadd oedd Deryc Rees, Nantycaws a fu'n diddanu a sôn am ei amser ym Mudiad y CFfI dros y blynyddoedd.



Aelodau'r Clwb



Llywydd y Clwb, Mrs Brenda Hancock, yn torri'r gacen.

# RHYDYCEISIAID

Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Hydref 6ed.

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Elfed ac Eifiona Lewis a'r teulu 3 Llysycoed ar farwolaeth cefnder Elfed, sef Islwyn Howells, Hwlffordd.
....hefyd ac Ann Morris a'r teulu, Golygfan ar golli modryb, sef Rosina Morris.
Diolch i Josh a Jac Lewis am dorri gwair y fynwent a'i chadw'n raenus.

# TRELECH

Cydymdeimlad dwysaf i Maureen Rees, Blaendewi Fach ar golli ei brawd yng nghyfraith Eric Anthony yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Eirlys Phillips, Cilifan sydd wedi dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

........ i Ffion Harries, Bryn Ambor sydd yn dathlu penblwydd arbennig y mis hwn.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Cafwyd gwasanaeth Mr Lyndon Lloyd yn oedfa gymun mis Hydref. Diolch iddo.

Tachwedd

10eg: Cymundeb Mr Arwel Evans - 2.00

24ain: Oedfa o Fawl dan nawdd Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda yn Nebo am 2 o'r gloch.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad a theulu Maesylan gynt ar farwolaeth ewythr sef Elfyn Evans, Gelli.

....hefyd â Michael Davies, Roy Reynolds a Llinos Thomas ar farwolaeth chwaer yng nghyfraith a modryb sef Mrs Mary Davies, Tavernspite (gwraig Ken Davies, Eastgate, Llanboidy gynt).

**Penblwydd hapus**

Dymuniadau gorau i un o ffyddloniaid Ramoth, sef Hubert Phillips, Waunfawr, Llanboidy sy'n dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Dachwedd 15ed.

**Taith Gerdded Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda**

Diolch i Buddug, Catrin, Jac, Sioned, Gwilym, Ivy, Llinos a Meirwen am gerdded ac i'r rhai fu'n stiwardio ar hyd y daith. Diolch hefyd i'r gwragedd, gyda chymorth gwragedd Moriah am baratoi gwledd ar y festri wedi'r daith. Diolch i bawb sydd wedi noddi'r cerddwyr - cyfanswm o £453.

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i Mr Tudur Dylan Jones a Mr Arwel Evans am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Hydref 27ain - Peter Thomas - Cwrdd am 2 o'r gloch

Tachwedd

3ydd - Cynnal oedfa yng Nghartref Glyn Nest am 2

10fed - Annalyn Davies - Cymun am 2

24ain - Hefin Wyn - Cwrdd am 10.30

Rhagfyr

8fed - Tudur Dylan Jones - Cymun am 10.30

22ain - Cwrdd Nadolig dan ofal yr aelodau am 10.30

**Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda**

Bu Eurfyl yn cynrychioli Calfaria ar daith gerdded noddedig blynyddol y gymdeithas gynhaliwyd yng Nghwmfelin Mynach ar fore Sadwrn, Medi 14eg.

**Gwellhad**

Dymunwn wellhad buan i Janet James sy'n anhwylus ar hyn o bryd.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda Bryan Evans a'r teulu ar farwolaeth brawd annwyl sef Elfyn Evans, Gelli yn ddiweddar.

**Penblwydd**

Dymunwn benblwydd hapus hwyr i Buddug Davies, fu'n dathlu ei phenblwydd yn 60 oed ar Hydref 7fed.

**Diolch**

Dymuna Arwel ac Ann Jones, Closbach, Login ddiolch am y cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ddiemwnt ym mis Gorffennaf. Trosglwyddwyd swm o £350 i 'Renal Dialysis Patient Amenities Fund', Ysbyty Glangwili.

**Penblwydd Hapus**

Dymuniadau gorau i Maureen Eynon, Penrallt Fach, Login a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Hydref 19eg. Cyfarchion wrth y teulu i gyd.

### Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Cynhaliwyd cyfarfod y gymdeithas ar Nos Fawrth, 1af Hydref i drefnu rhaglen y gaeaf. Daeth nifer dda ynghyd. Diolchodd Roy Llewellyn i bawb a weithiodd yn galed at lwyddiant y ffair Hâf ac er gwaethaf y tywydd buodd yn werth ei chynnal. Trefnwyd bod noson gwis ar nos Wener, 8fed Tachwedd. Mae Lyn Burnell wedi addo trefnu unwaith eto. Gofynnir ichi wisgo fyny (dim ond os ydych yn dewis). Y thema yw Noson Calan Gaeaf. Cofiwch gefnogi gan ei bod yn noson llawn hwyl a direidi ac mae tipyn o waith paratoi.

Trafodwyd y noson garolau a'r cinio blynyddol. Cewch gadarnhad o'r dyddiadau fis nesaf.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 19eg Tachwedd am 7.30.

Pob dymuniad da i un o gefnogwyr mwyaf y Ganolfan Maureen Eynon, Penrallt Fach, sydd newydd ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed. Diolch i ti am dy gefnogaeth a iechyd da i'r dyfodol.

# BLAENWAUN

Cyfarchion penblwydd i Ann Phillips, Swyn y Wawr, a ddathlodd ei phenblwydd yn 60 oed ar y 6ed o Hydref. Pob dymuniad da.

**Moriah**

Diolch i'n gweinidog y Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth ym mis Medi.

Cafwyd oedfa ar ddechrau'r mis ym Moriah a chymun undebol ym Mlaenycoed ar yr 22ain a cyfle unwaith yn rhagor i gofio am Elsbeth Page un a roddodd wasanaeth oes i'w chapel.

Bu nifer o'r aelodau yn yr Oedfa o Fawl yn Nebo ar fore Sul 6ed. Hydref. Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchedig Gareth Ioan a chyflwynodd bob eglwys un o'i hoff emynau gan roi cefndir y cyfansoddwyr. Cyfoethogwyd yr oedfa gan berfformiadau ar ffurf cân gan blant Nebo. Roedd yn oedfa fendithiol a gwnaed casgliad at elusen. Diolch i bawb gymerodd rhan ac i bwyllgor y Gymanfa Ganu a'r swyddogion am y trefniadau.

Trefn y gwasanaethau:
Hydref 27ain 2 o'r gloch. Cwrdd Diolchgarwch gyda Elonwy Phillips.
Tachwedd 3ydd. 3-30. Cymun Parchedig Gareth Ioan.
Tachwedd 17eg. 2 o'r gloch. Elonwy Phillips.

Pob dymuniad da i Tegwen James, Pen y bryn, sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei llaw.

# BANCYFELIN

**Bore Coffi Macmillan**




Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi bore Coffi Macmillan a drefnwyd gan Ofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin dan arweiniad Alison Parsons. Bu'r bore yn llwyddiant mawr a chodwyd dros £1,300 i'r elusen. Diolch am bob cefnogaeth.

**Cana**



Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch ardderchog yn festri Cana gan blant yr Ysgol Sul ar y thema 'Masnach Deg'. Derbyniwyd rhoddion i'r banc bwyd. Diolch i'r plant, eu rhieni a'r athrawon Ysgol Sul am eu gwaith. Cynhaliwyd Cwrdd Pregethu'r Cynhaeaf nos Iau, 10fed Hydref a chawsom oedfa hyfryd yng nghwmni'r Parchg Gwyn Elfyn Jones. Mwynhawyd swper braf yn y festri wedi'r oedfa.

**Capel Bancyfelin**

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch deuluol hyfryd gyda chynrychiolaeth o aelodau o bob oed yn cymeryd rhan. Derbyniwyd rhoddion i'r banc bwyd. Diolch i bawb am eu gwaith. Cynhaliwyd Cwrdd Pregethu'r Cynhaeaf nos Iau, 17eg Hydref a chawsom oedfa hyfryd yng nghwmni'r Parchg Heulwen Evans. Mwynhawyd swper braf yn y festri wedi'r oedfa.



Parch. Beti-Wyn yn cyflwyno cyfraniadau Cana a Bancyfelin i'r Banc Bwyd.

**Gibeon**

Cafwyd oedfa fendithiol dan ofal y gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas ar Fedi 15fed. Gweinyddwyd y Cymun gan Annalyn ac Ann oedd yn cyfeilio.

Dymunwn benblwydd hapus i Annalyn a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Hydref 2il.

## *Priodas dda*



Dymunwn yn dda i Anwen (Gwarwenallt) a Matt ar eu priodas yng Ngibeon ar Orffennaf 27ain





LLAWN CARiAd

**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

Bwyd Byd Byb

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

# CWM MILES

Diolch i'r Parchedig Euros Jones Evans am ei wasanaeth ar Sul, Medi 22ain. Thema yr oedfa oedd troedigaeth ysbrydol drwy hanes Jacob allan o Genesis. Mae'r hanes amdano yn ymgodymu ag angel Duw ym Mhenuel yn mynd yn bell i ddangos i ni sut mae'r Beibl yn sôn am droedigaeth person. Daeth Jacob yn ymwybodol o brofiad personol iawn, yn ymwybodol bod Duw yn berson, daeth i sylweddoli mae gyda Duw mae'r fuddugoliaeth, daeth yn ymwybodol o'i amherffeithrwydd a'i bechod ac yn bennaf yn ymwybodol o ddechrau newydd.

Trefn yr oedfaon
Hydref 13eg: 2 o'r gloch Cwrdd Diolchgarwch - Nigel Davies
Tachwedd 3ydd Cymun 2 o'r gloch Dafydd Evans.

# CLUNDERWEN

**Ennill Cystadleuaeth**



Llongyfarchiadau i Daniel Meredith o Ysgol Portfield, Hwlffordd ar ennill cystadleuaeth, fel rhan o Ŵyl Fwyd Arberth gyda cigyddion Andrew Rees. Enillodd gyda'i 'Spicy chilli cheesy nacho sausages'. Maent ar werth yn ei siop yn Arberth.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda Delyth a Shaun Taverner, a'r teulu, ar ôl i Delyth golli ei mam. Meddwl amdanoch.

**Hanner Marathon Caerdydd**
Llongyfarchiadau i Aled Hughes ar gwblhau Hanner Marathon Caerdydd. A hyn ar ôl chwarae gêm gyfan o rygbi diwrnod cynt. Da iawn ti.



Aled Hughes

**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**



Cymerodd rhai o'r gwragedd ran mewn cwis gyda Sefydliad y Sir. Buont yn llwyddiannus iawn a daethant yn 3ydd allan o 11.
Da iawn ferched.





Mis Hydref daeth Kate o Annibendod, Llandysilio i wneud 'marbeling' noson hwylus a chreadigol iawn. Diolch iddi.

**Cae Chwarae Clunderwen**
Diolch enfawr i Alastair a Dan am y gwaith arbennig maent wedi rhoi mewn i gwbwlhau y 'pump track' yn y Cae Chwarae. Diolch i 'JB Extreme Landscaping' am ddylunio ac adeiladu'r trac, maent wedi rhoi dyddiau hir i'w gwbwlhau.

Cofiwch wisgo helmet pan yn ei defnyddio.













**Calan Gaeaf**

Parti Calan Gaeaf gyda Dhogie Band i godi arian i Ysgol Brynconin.


**Parti Calan Gaeaf**
yn Neuadd Clunderwen
*Gwobr am y wisg ffansi orau*
**Miwsig gan y Doghi Band**
**Hydref 26ain 2024 am 6.30yh**
Dewch a'ch diod eich hun
Bwyd ar gael i'w brynu
**Mynediad drwy docyn (£15) yn unig**
Tocynnau wrth Gemma 07969 519052
*Elw i Ysgol Brynconin*


**Diolch**

Mae Mostyn Williams Pwllderi, Clunderwen, yn dymuno diolch i bawb am yr holl gyfarchion penblwydd a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 80 oed. Mae hefyd yn hynod ddiolchgar am y nifer o roddion caredig i'r Ymddiriedolaeth Fibrosis Systig ar ôl iddo gyflawni sialens Gwifren Zip yn Chwarel Penrhyn. Mae cyfanswm o £1867 wedi'i godi at yr achos hwn. Diolch i chi gyd.

# LLANDYSILIO

**Penblwydd hapus**

Penblwydd hapus i Karen Thomas, Mes y Bryn, a oedd yn 50 oed ar Fedi 23ain.

....hefyd penblwydd hapus i Janet Harries, o Roseburry a oedd yn 60 oed ar Fedi 27ain.

....Carole Young yn 80 oed ar 28ain o Fedi.

....Sian James, Maes y Bryn, yn 50 oed ar 28ain o Fedi.

....Phillip Walker a oedd yn 60 oed ar 30ain o Fedi a John Beynon, a oedd yn 70 oed ar y 7fed o Hydref.



Karen Thomas



Sian James



Carole Young


**AWEN TEIFI**
Dewis da o lyfrau Cymraeg
i blant ac oedolion,
hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ



**CENNYDD JAMES**
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

*Gwasanaeth yn y Gymraeg!*
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181



Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

**Cydymdeimlad**

Elfyn Evans

Roedd yn ddiddorol iawn darllen hanes Elfyn Evans, Gelli yn rhifyn Cardi Bach mis Medi ond, tristwch yw cyhoeddi ei fod wedi'n gadael ni ar Hydref 4ydd. Cydymdeimlwn gyda'i blant Yvonne a Neil a'i wraig Grace, sydd wedi treulio amser yn ysbyty Llwynhelyg yn ddiweddar.

....hefyd cydymdeimlwn gyda Lon a Dewi John a'r teulu ar farwolaeth mam Lon sef  Marian, priod y diweddar Percy.

**Gwellhad Buan**

Dymunwn lwyr wellhad i Gillian Gibby yn dilyn rhai diwrnodau, yn ddiweddar yn Ysbyty Llwynhelyg.

**Dathlu Priodas Ruddem**



Llongyfarchiadau i Andrew a Jenny Morris a oedd yn dathlu eu Priodas Ruddem, ar 8fed o Hydref.

**Priodas**



Llongyfarchiadau mawr i Alun a Sophie Griffiths ar eu priodas. Mae Alun yn fab i Anne Griffiths (Beynon) o Llandysilio. Gan ddymuno pob hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

**Iron Man**

Llongyfarchidau mawr i Lowri Harries ar gwblhau Iron Man ym mis  Medi.



Nofio - brwydr yn y mor, y tonnau a'r pysgod Jeli ac ati. Cwrs beicio - gwynt ac yna glaw ar y diwedd. Rhedeg - yn y tywyllwch ac yn wlyb iawn. Roedd cefnogeth teulu a ffrindiau, cyn ac ar y diwrnod, wedi bod o gymorth mawr.

***Lowri Harries***



....hefyd llongyfarchiadau i Tomos Dugmore ac i Madison Clarke ar gwblhau Iron Man. Tomos yn 12 awr a hanner. Madison yn 15 awr a 51 mun. Da iawn wrth mam a dad sef Andrew a Iris, a Doug a Louise. Falch iawn ohonynt.



....hefyd i Iwan Dugmore ar gwblhau Triathlon yn Saundersfoot ar 20fed o Fedi.

PHILLIPS A MORRIS
ADEILADWYR
Central, Clunderwen
Symudol:
07775 697803
07920 060956

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

**Undeb Rygbi Cymru**



Chwaraeodd Natalie Bowen o Landysilio ei gêm gyntaf i Gymru nôl yn 2007, yn erbyn Canada, gyda chefnogaeth gwych wrth deulu a ffrindiau o'r pentref a'r ardal yn dod i wylio. Bryd hynny nid oedd Undeb Rygbi Cymru yn cydnabod rygbi merched.
Erbyn hyn, ym mis Hydref 2024, cafodd yr holl ferched roedd y URC yn medru cysylltu gyda, ac heb gael cap, wahoddiad i Stadiwm Principality am ginio gyda cyn chwareuwyr dynion ac aelodau'r pwyllgor. Cafodd y merched docynnau i wylio gêm y Barbariaid ac yna nôl i Lolfa'r Llywyddion am ddiodydd. Roedd y cyfan am ddim. Na beth oedd diwrnod hyfryd iddynt.
Mae'r URC yn dal i chwilio am 30/40 o ferched a chwaraeodd rygbi dros Gymru yn y gorffennol, sydd dal heb gael cap.

**Pêl Droed Cymru**



Mae merched Pêl droed Cymru wedi cyhoeddi fod **Angharad James** o Landysilio wedi cael ei dewis i fod yn gapten Merched Cymru am y dyfodol rhagweladwy. Aeth Angharad i Ysgol Brynconin, Llandysilio ac yna Ysgol Preseli. Chwaraeodd hefyd pan yn blentyn i glwb pel droed merched Clarbeston Road. Mae Angharad yn chwaraewr canol cae, wedi cael 122 o gapiau trwy chwarae i Gymru. Mae ei angerdd ac ymrwymiad yn amlwg. Dymunwn bob lwc iddi i'r dyfodol.

**Pwyllgor Neuadd Llandysilio**

Cynhaliwyd Bore Coffi yn Neuadd Llandysilio ar 5ed o Hydref. Codwyd £525 at Ymchwil Cancr Cymru. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

menter iaith Sir Benfro SPAN

# CYNGERDD YR ADFENT

Estynnwn wahoddiad gwresog i chi ymuno â ni yng nghapel Pisga Llandysilio prynhawn Sul 1af o Ragfyr ar gyfer ein cyngerdd blynyddol ar Sul cyntaf yr Adfent. Rydym yn falch i gyhoeddi bydd y tenor Trystan Llŷr Griffiths yn ein diddanu unwaith eto a cheir perfformiadau corawl oddi wrth Ar Ôl Tri.

Cyngerdd Yr Adfent
**Dydd Sul 1 Rhagfyr**
**Capel Pisga, Llandysilio, SA66 7TF**

Gyda'r tenor ***Trystan Llŷr Griffiths*** ac ***Ar Ôl Tri***

Agor am 16.30 - Dechrau am 17.00

Llawn: £12, Consesiwn: £10

Archebwch: www.span-arts.org.uk/book
01834 869 323

CLG no. 04150772 | Charity no.1088723
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

# CWMBACH

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Meryl a Huw James a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Bu farw Roger Thomas, Coedwalter, Llangyndeyrn sef brawd Meryl yn sydyn ym mis Gorffennaf.

Hefyd blin gennym gofnodi marwolaeth Peter Robinson, Waunllan. Roedd newydd ddathlu ei benblwydd yn 100 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Colin a Daphne a'u teuluoedd. Bu'r angladd yn breifat yn Eglwys Llanwinio.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Eirwen Robinson Rhydcaernarfon ar ôl iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Bancyfelin yn ddiweddar.

**Penblwydd**

Penblwydd hapus i Huw James, Tyddyn a fydd yn 70 oed ar Dachwedd 13eg.

**Clwb Gymdeithsol Llanboidy**

**Cynhelir Noson Tan Gwyllt ar nos Fawrth, Tachwedd 5ed am 7 o'r gloch**

Bydd y Guto Ffowcs yn cael eu beirniadu am 6.30 o'r gloch

Barbeciw ar gael ar y noson

Croeso cynnes i bawb

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf

CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Clybiau**

Mae'r clybiau ar ôl ysgol eisoes wedi dechrau i Fl.3 – 6. Mae llu o blant wedi ymuno â'r clybiau canlynol – Iach ac Heini, ECO, Chwaraeon, Digidol a Chymru Cŵl. Hefyd cynhelir sesiynau hyfforddi pêl-rwyd a rygbi yn wythnosol.

**Seiclo**



Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 wythnos brysur o hyfforddiant beicio gan gynnwys sesiynau hyfforddi ar hyd strydoedd Sanclêr. Llongyfarchiadau i bob un a fu'n llwyddiannus.

Ymweliadau

Aeth criw mawr o gerddorion Blwyddyn 3 -6 yr ysgol ar daith i ysgol Dyffryn Taf i fwynhau cyngerdd cerddorol arbennig a drefnwyd gan dim athrawon offerynnol y Sir. Bu'r plant wrth eu bodd yn gwrando ar y gerddorfa yn chwarae clasuron o fyd y ffilmiau.

Aeth ein Llysgenhadon Chwaraeon, sef Hunter, Jenson, Annie a Lili i'r Ganolfan Hamdden yn San Clêr i fwynhau prynhawn o hyfforddiant gyda Actif Sir Gâr. Bydd hyn yn eu helpu wrth arwain sesiynau ffitrwydd gyda'r disgyblion iau.

**Ymwelwyr**

Hyfryd oedd croesawu Ficer Sarah a Deacon John o'r gymuned atom unwaith eto i gynnal gwasanaethau a byddant yn dod atom bob wythnos yn ystod y tymor.

Daeth PC Kath, ein heddwas cymunedol i gynnal sesiynau gwerthfawr gyda disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 am ddiogelwch ar y we ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Croesawyd PCSO Sarah ac Elinor ar ran y Frigad Dân i rannu negeseuon gyda'r plant am sut i fwynhau Calan Gaeaf a Noson Tan Gwyllt mewn ffordd diogel.

Rygbi



Llongyfarchiadau i'r bechgyn canlynol am gael eu dewis ar gyfer tîm rygbi'r Rhanbarth: Hunter, Jac, Alffi Max, Noa a Connor.

**Ffarwelio**



Daeth yn amser ffarwelio â Mrs Christina John ar ôl dwy flynedd fel rhan o'n tim. Diolch o galon iddi am ei holl waith caled a phob dymuniad da yn ei swydd newydd.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Diwrnod Ffitrwydd Cenedlaethol**

Ar yr ugeinfed o Fedi dathlwyd diwrnod ffitrwydd cenedlaethol. Gwnaeth y disgyblion ddysgu am bwysigrwydd a buddion cadw'n iach yn ogystal ag ymgymryd mewn amryw o weithgarwch corfforol a llesol. Mwynhaodd y disgyblion ddysgu sgiliau newydd wrth ymgymryd mewn sesiwn sgiliau rygbi TAG, gwers byw corfforol gan Actif, sesiwn clocsio gan Betsan Campbell a gemau hwylus gan Heulwen a Sara o'r Urdd.

**Bore Coffi Macmillan**



Ar fore'r 27ain o Fedi cynhaliwyd bore coffi i godi arian i elusen Macmillan yn neuadd yr ysgol. Diolch i aelodau o'r Cyngor Ysgol a fu'n brysur yn helpu i weini'r cacennau ac yn gwerthu a threfnu'r raffl. Diolch i'r gymuned a'r rhieni am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau, codwyd £348 i'r elusen.

**Cyngerdd y Gwasanaeth Gerdd**

Aeth disgyblion o ddosbarthiadau Gronw a Cynin i Ysgol Dyffryn Taf i fwynhau cyngerdd cerddorol a drefnwyd gan dîm athrawon offerynnol y Sir. Bu'r plant wrth eu bodd yn gwrando ar y gerddorfa yn chwarae amryw o glasuron o'i hoff sioeau, rhaglennu teledu a ffilmiau.

Ymwelwyr

Braf oedd croesawu'r Parchedig Guto Llywelyn i arwain gwasanaeth cyntaf mis Hydref. Roedd y plant wrth eu bodd yn gwrando ar ddwy stori o'r Beibl yn ystod y gwasanaeth.

**Llysgenhadon**



Llongyfarchiadau i'n Llysgenhadon Efydd eleni sef Dylan, Hannah, Maria, Deian a Willow. Aethant i Ganolfan Hamdden Sanclêr i fwynhau bore o hyfforddiant gyda Actif Sir Gâr i'w helpu i arwain sesiynau ymarfer corff i ddisgyblion yr ysgol yn ystod y flwyddyn.

**Llongyfarchiadau**



Llongyfarchiadau i Lottie Collins a wnaeth ennill cystadleuaeth dylunio poster ar gyfer diwrnod agored Abaty Hendy-gwyn gan Fenter Gorllewin Sir Gâr, i Jac Owen am gael ei ddewis ar gyfer tîm Rygbi Rhanbarth Sir Gaerfyrddin a i Llew Murray am gael ei ddewis i chwarae i dim pêl-droed Ysgolion Caerfyrddin. Pob lwc i'r ddau ohonoch dros y misoedd nesaf!

Cyfraniadau

| | |
|---|---|
| Beryl Williams, Ledbury | £10 |
| Mostyn a Dil Williams, Clunderwen | £10 |

*Diolch yn fawr*

PEIRIANNEG MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

Ken Davies a'i Fab
*Cigyddion*
London House
Crymych
Ffôn: 01239 831978

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300

# YSGOL LLYS HYWEL

**Hoci**

Daeth clwb hoci Caerfyrddin atom i roi blas o sgiliau a gêm hoci gyda disgyblion bl.5 a 6. Roedd y plant wedi mwynhau dysgu'r sgiliau yma. Diolch i chi.

**Hyfedredd Beicio**



Bu rhai o disgyblion blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn cwrs hyfedredd/ diogelwch seiclo. Llongyfarchiadau i'r rhai oedd wedi bod yn llwyddiannus.

**Diwrnod Roald Dahl**

Mwynhaodd plant yr Ysgol gyfan gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddathlu diwrnod Roald Dahl. Bu disgyblion blynyddoedd 3 i 6 yn ymweld â'r llyfrgell leol, dylunio clawr a chreu bas data o lyfrau Roald Dahl.

**Abaty Hendygwyn**

Cafodd disgyblion 5 a 6 groeso cynnes gan bwyllgor Hendy-gwyn ar ddiwedd mis Medi a threfnwyd diwrnod hwyl yn Abaty Hendy-gwyn er mwyn i'r plant ddysgu am hanes, bywyd yn hen ddyddiau'r Abaty a sut oeddent yn byw. Roedd y plant wedi cymryd rhan mewn sawl gweithgaredd.

**Wythnos Ailgylchu**

I godi ymwybyddiaeth o wythnos ailgylchu, roedd yr Ysgol gyfan wedi cymryd rhan mewn sioe ffasiwn Eco. Cafwyd bore arbennig yn arddangos eu gwisgoedd Eco a chasglu sbwriel o gwmpas y gymuned.



Buodd y cyngor Ysgol/Eco yn ffodus iawn hefyd i gael Dan Thomas, o Waste Baling Machines, Clunderwen, allan i siarad â'r plant am ei waith a'r pwysigrwydd o ailgylchu. Cyflwynodd Dan £350 i'r ysgol am y caniau aliwminiwm yr oeddent wedi casglu dros y flwyddyn diwethaf – Diolch Dan!

**Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd**

Dathlwyd y diwrnod trwy wneud sawl gweithgaredd yn seiliedig ar yr iaith. Cafodd bob dosbarth y dewis i astudio gwlad. Braf oedd gweld y plant yn cymryd rhan mewn sawl gweithgaredd amrywiol, megis, coginio pitsa, dysgu cân o wlad Pwyl a dawnsio Sbaeneg.


**Prynhawn peripatetig**

Aeth disgyblion blwyddyn 3 - 6 i Ysgol Dyffryn Taf i fwynhau prynhawn o adloniant gan griw peripatetig Sir Gâr. Roedd y plant wedi mwynhau canu i'r ystod o gerddoriaeth ac offerynnau.

**Prynhawn coffi Macmillan**



Cawsom brynhawn coffi llwyddiannus iawn pan ddaeth rhieni a phobl o'r gymuned leol i gefnogi'r achos da yma. Codwyd cyfanswm o £300. Diolch i'r plant, y gymuned a'r staff am eu cefnogaeth.





**Darlithiau Cymdeithas Waldo 2010-2024**

**£30.00** (Cludiant am ddim)

Siec yn daladwy i Y Faner Newydd

Anfonwch eich archeb at:

Alun Ifans, Erw Grug. Maenclochog, Clunderwen,
Sir Benfro, SA66 7LB




**BARA BRITH**

**Cynhwysion**:
4 owns o fargarin
1 llond cwpan bach o laeth
1 llond cwpan bach o siwgwr brown tywyll
6-8 owns o ffrwythau cymysg
3-4 owns o geirios
3-4 owns o 'peel' cymysg

**Dull:**
Rhowch y cyfan uchod mewn sosban a twymwch nes bod y margarin yn toddi (Peidiwch a berwi)
Gadewch i oeri.
Yna ychwanegwch:-
8 owns o fflwr SR
½ llwy de o bicarbonate of soda.
½ llwy de o sbeis cymysg.
2 wy

Cymysgwch y cyfan yn dda a rhowch mewn tun pobi (ffwrn gwres 150 - 160°C) am 1¼ awr hyd nes bod wedi crasu'n dda.

# Eisteddfod Genedlaethol 2026

Cynhaliwyd cyfarfod agored yn Theatr y Gromlech, Ysgol Bro'r Preseli, Crymych ar nos Iau, Hydref 10fed i drafod croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Shir Benfro yn 2026. Roedd y theatr dan ei sang ac roedd brwdfrydedd y gynulleidfa oedd yn bresennol yn heintus. Cafwyd anerchiad gynhwysfawr gan Betsan Moses, Prif Weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol a gwnaeth hithe gadarnhau taw er yn Llantood ( rhwng Eglwyswrw ac Aberteifi ) bydd safle'r Eisteddfod, bod disgwyl i Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Ceredigion fod yn rhan o'r treniadau hefyd am ei bod am "fabwysiadu ffordd cwbl newydd o weithio gan ddod a rhannau o'r dair sir at ei gilydd." Gyda hynny mewn cof, mae'n bwysig i adlewyrchu hynny wrth roi enw swyddogol i Eisteddfod Genedlaethol 2026.

Y cam nesaf fydd sefydlu'r Pwyllgor Gwaith ac is bwyllgorau cerdd, llefaru, dawns, celf, ieuenctid ac ati er mwyn bwrw ati i lunio rhestr testunau. Bydd pwyllgorau apel yn cael ei sefydlu ar draws Shir Benfro, Gorllewin Shir Gaerfyrddin a De Ceredigion yn fuan, er mwyn bwrw ati i godi'r swm o £400,000. Roedd yn galonogol gweld trigolion o'r dair sir yn bresennol ac edrychwn ymlaen at gydweithio hapus yn y cyfnod yn arwain lan i Awst 2026. Bydd e yma mewn fawr o dro, felly rhaid bwrw ati I dorchi llewys er mwyn cael y maen i'r wal.

Os ydych gallu cynorthwyo a gweithredu mewn unrhyw ffordd, cofrestrwch ar wefan yr Eisteddfod cyn gynted a phosib os gwelwch yn dda – eisteddfod.cymru/eisteddfod-2026



Betsan Moses, Prif Weithredwr yn anrch y gynulleidfa



Y gynulleidfa

G. & J.M. Phillips
CONTRACTWYR TRYDANOL
Caerdaf, Spring Gardens,
Hendygwyn ar Daf
SA34 0HE
Ffôn: 01994 241015
Symudol: 07771 601412
NICEIC Contractwr Cydnabyddedyg

DERI PAGE
CIGYDD

Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
Diolch am eich cefnogaeth

GT TYRES

Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705

LYNDON GEORGE

ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL

MOT

♦CEIR ♦BEICIAU MODUR ♦FANIAU ♦4x4

**Offer Diagnostig Diweddaraf**



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

♦RHANNAU SPAR ♦GWASANAETH ♦TEIARS ♦BATRIS♦WELDIO ♦TRACIO PEDAIR OLWYN ♦TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 ♦ Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



# FFERYLLFA STRYD FAWR ARBERTH

**39 Stryd Fawr, SA67 7AS**

**Ar agor:**

**Dydd Llun i ddydd Gwener 9yb - 6yh**

**Dydd Sadwrn 9yb - 6yh**

**Dydd Sul: 10yb - 4yp**

**Gŵyl y Banc - ar gau**

**01834 860486**



Jones Login

Teithiau o Safon

Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Hydref 2024** | | |
| Llun 21 | **Southport, Ardal y Llynnoedd a Lerpwl** | 5* |
| **Rhagfyr 2024** | | |
| Sad 7 | Canolfan Arddio Y'r Hen Rheiffordd (Siopa Nadolig) | 1 |
| Sad 14 | *Sioe Gerdd Hamilton, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| **Chwefror 2025** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Neuadd Alvaston, Swydd Caer** | 5* |
| **Mawrth 2025** | | |
| Sad 8 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| Sad 22 | *Sioe Gerdd Kinky Boots, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| **Ebrill 2025** | | |
| Sad 19 | *Sioe Gerdd Chitty Chitty Bang Bang, CMC* | 1 |
| Gwe 25 | **Torvill a Dean 'Our Last Dance' a Stratford upon Avon** | 2 |
| **Mai 2025** | | |
| Dyddiad i'w drefnu! | **Gerddi Highgrove a Chaerfaddon** | 2 |
| Sad 10 | *Sioe Gerdd Chicago, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 12 | **Caernarfon ac Ynys Môn** | 5* |
| Sad 17 | *Sioe Gerdd Only Fools & Horses, CMC* | 1 |
| Sad 17 | **Yr Alban - Perth a'r Canolbarth** | 7 |
| **Mehefin 2025** | | |
| Llun 9 | **Ardal y Peak District** | 5* |
| Mer 18 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| Sad 21 | *& Juliet, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 30 | **Gwesty Warner, Nidd Hall, Swydd Efrog** | 5* |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Gorffennaf 2025** | | |
| Gwe 4 a Sad 5 | *Oasis, Stadiwm Principality (Bws yn unig)* | 1 |
| Maw 22 a Mer 23 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Iau 24 | **Sidmouth** | 5* |
| Sad 26 | *Sioe Gerdd Joseph a'I got amryliw, CMC* | 1 |
| **Awst 2025** | | |
| Llun 4 | **Eisteddfod a Chaer** | 6* |
| Gwe 8 | Eisteddfod | 1 |
| **Medi 2025** | | |
| Llun 1 | **Swydd Ceint, Gardd Lloegr** | 5* |
| Llun 15 | **Tai Hanesyddol a Gerddi y Gogledd Orllewin** | 5* |
| Gwe 20 | **Penwythnos Siopa Uwchsonig (Concorde)** | 2 |
| Llun 23 | **Iwerddon—Swydd Mayo** | 6* |
| **Hydref 2025** | | |
| Llun 6 | **Gwesty Warner, Cricket St. Thomas** | 5* |
| Llun 13 | **Ardal y Llynnoedd** | 5* |
| Sad 25 | *Sioe Warhorse, CMC* | 1 |
| **Tachwedd 2025** | | |
| Gwe 7 | **Twrci a Tinsel - Torquay** | 5* |
| Sad 15 | *Sioe Riverdance 30, Caerdydd* | 1 |
| Sad 29 | **Goleuadau Palas Blenheim a Windsor** | 2 |

2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae siawns o ennill Taleb Teithio ar bob taith yn ystod y flwyddyn.

***Gwasanaeth Dwrs i ddrws ar y teithiau yma / Archebwch ar lein nawr / Llyfryn 2025 ar gael nawr!**



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwener 1af Tachwedd | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £305 | 4 Diwrnod |
| Llun 4ydd Tachwedd | WEYMOUTH - NADOLIG CYNNAR yng Ngwesty'r CROWN | £420 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Tachwedd | SIOE HEN DRACTORAU a THREFTADAETH AMAETHYDDOL | £315 | 3 Diwrnod |
| Llun 11fed Tachwedd | NADOLIG FICTORIANAIDD ar YNYS WYTH - ISLE OF WIGHT | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun 11fed Tachwedd | Clychau ac Addurniade NADOLIG cynnar yn BOURNEMOUTH | £420 | 5 Diwrnod |
| Gwe 15fed Tachwedd | PENWYTHNOS NADOLIGAIDD yn SIDMOUTH | £375 | 4 Diwrnod |
| Iau 21ain Tachwedd | NADOLIG llawn CELYN ac UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £545 | 5 Diwrnod |
| Gwe 22ain Tachwedd | MARCHNADOEDD NADOLIG CHATSWORTH HOUSE | £335 | 3 Diwrnod |
| Gwe 29ain Tachwedd | NADOLIG o UCHELWYDD a GWIN yn BABBACOMBE | £310 | 4 Diwrnod |
| Gwe 29ain Tachwedd | TWRCI a TINSEL yng NGWESTY BELGRAVE SANDS TORQUAY | £345 | 4 Diwrnod |
| Sul 1af Rhagfyr | WYTHNOS GYNNAR o DDATHLU'r NADOLIG yn ST AGNES | £440 | 5 Diwrnod |
| Gwener 6ed Rhagfyr | Ymunwch a Santa ar tren y GOLEUNI NADOLIG YN PAIGNTON | £345 | 4 Diwrnod |
| Gwener 6ed Rhagfyr | PENWYTHNOS ar gyfer paratoi am y NADOLIG yn LLUNDAIN | £305 | 3 Diwrnod |
| Mercher 11fed Rhagfyr | Marchnadoedd NADOLIG VALKENBURG, yr ISELDIROEDD | £635 | 4 Diwrnod |
| Gwe 13eg Rhagfyr | CYNGERDD CAROLAU NADOLIG yn NEUADD ALBERT LLUNDAIN | £405 | 3 Diwrnod |
| Llun 30ain Rhagfyr | DATHLU'r FLWYDDYN NEWYDD yn WATERFORD IWERDDON | £540 | 4 Diwrnod |
| Llun 30ain Rhagfyr | Dathlwch y Flwyddyn Newydd yn y PALACE HOTEL PAIGNTON | £550 | 4 Diwrnod |

## 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwe 17eg Ionawr | ADUNIAD CWSMERIAID CWM TAF yn TORQUAY | £280 | 4 Diwrnod |
| Gwe 24ain Ionawr | DIRGELWCH Y LLOFRUDDIAETH YN Y CELTIC CAERNARFON | £285 | 3 Diwrnod |
| Gwe 31 ain Ionawr | PENWYTHNOS ARBENNIG YN WESTON SUPER MARE | £330 | 4 Diwrnod |
| Gwe 7fed Chwefror | BABBACOMBE, ABATY BUCKFAST a NEWTON ABBOT | £280 | 4 Diwrnod |
| Llun 17eg Chwefror | "BYWYD AR Y MOROEDD MAWR" YN LLANDUDNO | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 23ain Chwefror | GWYLIAU HAMDDENOL CLYD AR ARFORDIR YNYS WYTH | £455 | 5 Diwrnod |
| Gwe 28ain Chwefror | CLIVE a'i FFRINDIE yn GWESTY'r CELTIC CAERNARFON | £260 | 3 Diwrnod |
| Iau 6ed Mawrth | GEM RYGBI ALBAN v CYMRU YN CAEREDIN | £449 | 4 Diwrnod |
| Sul 9fed Mawrth | PENTREF DOC MARTIN, ARFORDIR CERNYW a ST AGNES | £415 | 5 Diwrnod |
| Llun 10fed Mawrth | *NEWYDD * GWYLIAU STAFELLOEDD SENGL yng NGAINT | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwe 14eg Mawrth | PENWYTHNOS YN DINAS HYNAFOL EFROG | £340 | 4 Diwrnod |
| Gwe 21ain Mawrth | PAIGNTON a GERDDI BOTANEG BICTON | £335 | 4 Diwrnod |
| Gwe 28ain Mawrth | LOOE, ARFORDIR CERNYW a'r "EDEN PROJECT" | £340 | 4 Diwrnod |
| Llun 31ain Mawrth | RHYFEDDODAU WEYMOUTH a "JURASSIC COAST" | £445 | 5 Diwrnod |
| Llun 7fed Ebrill | LLANBERIS a RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU | £555 | 5 Diwrnod |
| Sad 12fed Ebrill | BLAS o GYMRU o WESTY'r TYNEDALE LLANDUDNO | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 14eg Ebrill | TULIPS a MELINAU GWYNT YR ISELDIROEDD | £695 | 5 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORVILLE & DEAN yn BIRMINGHAM BWS A (Seddi Gwaelod) | £320 | 3 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORVILLE & DEAN yn BIRMINGHAM BWS B (Seddi Uwch) | £320 | 3 Diwrnod |

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau

Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni

01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk

## *Teithiau Undydd 2024*

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mercher | 6edTach | McArthur glen, Penybont ar Ogwr | £20.00 | Mawrth | 3yddRhag | Siopa Nadolig yn Abertawe | £16.00 |
| Mawrth | 19egTach | Siop Vincent Davies, Hwlffordd | £14.00 | Mawrth | 10fedRhag | siopa nadolig yng Nhaerdydd | £20.00 |
| Sadwrn | 16egTach | Gŵyl y Gaeaf Abertawe (Winter Wonderland) | £16.00 | Iau | 12fedRhag | Marchnad Nadolig yn y Gelli Ganddryll | £25.00 |
| Llun | 25ainTach | Sioe Aeaf Amaethyddol Cymru, Llanelwedd | £22.00 | | | | |

Ffôn: 01994 240908 / info@tafvalley coaches.co.uk

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus i Llew Owen-Jenner sydd yn dathlu ei benblwydd yn 7 oed ar Dachwedd 18fed. Mae Llew yn ŵyr i Anthony a Ceirios Jenner, Efailwen.
Llawer o gariad, oddi wrth Mamgu a Dadcu a'r teulu i gyd.




Penblwydd hapus iawn i Osian Jones o Drefach Felindre, a oedd yn 4 oed ar 5ed o Hydref. Llawer o gariad wrth Mami a Dadi, Mamgu a Dadcu Fferm o Llandysilio, (ŵyr Delyth a Michael Roblin) a Mamgu Llandysul.

## *Penblwydd hapus yn 80 oed*



Hoffem ddymuno penblwydd hapus yn 80 oed, ar y 23ain o Dachwedd i Ray Lewis, 13 Lon Ddewi, Meidrim. Cariad mawr wrth Gaynor, Mark, Anthea, Dorian a Philip, eich holl wyrion a gor-wyrion. xxx




Menter Gorllewin Sir Gâr

Yn anffodus, mae fy amser gyda'r Fenter wedi dod i ben. Mae wedi bod yn gyfnod hapus iawn i fi ac rwyf wedi mwynhau'r gwaith a'r cwmni. Diolchaf i chi o waelod calon am bob cydweithrediad a chefnogaeth ers Mehefin 2019.

Yn y dyfodol, os oes gennych unrhyw ymholiad cyffredinol i'r Fenter yna cysylltwch ar: ymholiad@mgsg.cymru. Os oes gennych unrhyw ymholiad am waith cynllun Profi'n benodol yna cysylltwch ar: post@profi.cymru NEU meinir@mgsg.cymru

Dymunaf bob lwc i chi gyda'ch gwaith a gobeithio gallaf weithio gyda chi eto'n y dyfodol.

*Alma Roberts*

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol: 07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Trefigin Oil
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS

Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282

CYFRES Wenfro

# Arswyd y byd!

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Eleni, mae Bwgi-bo wedi cerfio llythrennau ar ei bwmpen enfawr.

**Fedrwch chi ddyfalu beth yw'r saith gair arswydus?**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/11/24**

**Alys James o Ben-y-bont ar Ogwr yw enillydd Cystadleuaeth Bwced Bwgi-bo**

Ateb: 3 chranc, 6 o gocos, 5 o gregyn gleision, 2 fôr-falwen, 2 octopws, 5 pysgodyn a 4 seren fôr oedd yn y bwced.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2024

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

*Clwb Rygbi San Cler - parhad o dudalen 35*

Roeddwn yn arwain 7 - 3 ar yr egwyl ond yn ystod yr ail hanner, fe wnaethom ymsugno pwysau'r tîm cartref am gryn amser cyn ildio cais a cic cosb hanner ffordd drwy'r ail hanner, gan fynd ar ei hol hi 7 - 11. Parhaodd y gêm gydag amddiffynfeydd y ddau dîm yn gryf nes i Waunarlwydd gael ei cosbi. Cymerwyd tap cyflym a sgoriwyd cais gwych yn y gornel gan Jac Howells i'n rhoi ar y blaen 11 - 12. Roedd y 5 munud nesaf yn llawn tensiwn gyda Waunarlwydd yn gwthio'n galed am fuddugoliaeth, dim ond i'w dal allan gan ein hamddiffyniad dewr. Rhyddhad a'n buddugoliaeth gyntaf gyda 4 pwynt gwerthfawr wnaeth godi hwyl ar gyfer ein taith adref.

Ein gêm nesaf oedd yn erbyn Yr Hendy a oedd wedi ennill ei gemau agoriadol ac wedi cyrraedd Parc Griffith Jones yn llawn hyder. Roedd ein blaenwyr yn wych yn y safle gosod ac yn chware'n dda ac yn cryfhau ar ôl yr egwyl. Gwnaeth rhai penderfyniadau allweddol a pasio llac adael i'r Hendy redeg hyd y cae i sgorio trosgais i arwain 0 - 7. Fe wnaethom adeiladu momentwm a safle maes gydag ymosodiadau cyson gan ein blaenwyr trymach a mawr yn y chwarter agoriadol. Yn dilyn chwarae ardderchog gan y cefnwyr, torrodd Gino Setaro y llinell i sgorio'n ddiwrthwynebiad, ond methwyd y trosiad. Arweiniodd rhyngchwarae pellach ymhlith y cefnwyr at gais pellach i'r asgellwr bywiog Dafydd Rees a gafodd ei wobrwyo'n briodol am chwilio am waith ar bob cyfle. Yn ôl daeth Yr Hendy gyda cic gosb i lefelu'r sgôr 10 - 10 ar hanner amser. Dechreuodd yr ail hanner yn dda ac er i'r Seintiau gryfhau, gwnaeth Yr Hendy ganfod ei ffordd i'r llinell gais a sgorio trosgais. Am yr ail wythnos yn olynol, roeddwn yn cwrso'r gem yn y chwarter olaf a gyda'r blaenwyr yn chwarae'n dda, gwnaethant sicrhau safle da a darparu rhai cyfleoedd i'r olwyr i sgorio.

Yn y pen draw, ciciwyd y bel dros ben yr amddiffyn gan Sam Miles a gasglwyd yn briodol gan yr asgellwr Liam Rogers ar y bowns, i sgorio o dan y pyst – trosiwyd ei gais ganddo. Gorffennodd y gêm yn gyfartal ac wrth adlewyrchu arni, dylem fod wedi'i hennill. Wedi dweud hynny, roeddwn yn hapus I sicrhau dau bwynt gwerthfawr arall sy'n golygu, ar ôl y 3 gêm gyntaf, rydym yn y 4ydd safle yn Adran 1 y Gorllewin gyda 7 pwynt. Edrychwn ymlaen at ein gemau nesaf yn erbyn Pontarddulais a Penclawdd, ar ôl cael "bye" yn rownd gyntaf y gwpan.

Mae Ieuenctid Sanclêr yn parhau i ennill gemau gyda buddugoliaethau trawiadol, adref yn erbyn Cydweli 50 - 15, yn dilyn hyn gyda gêm nos Wener I ffwrdd yng Nghastell Newydd Emlyn gyda buddugoliaeth o 15 - 41. Ar 5ed Hydref croesawom Athletau Caerfyrddin ac ar ôl hanner cyntaf cystadleuol, gwnaeth y bechgyn ennill yn gyfforddus 41 - 18. Da iawn i'r Seintiau ifanc a daliwch ati gyda'r gwaith da. Gyda 3 buddugoliaeth o 3 yn y gynghrair a 6 o 6 y tymor hwn, mae'n edrych yn addawol ar gyfer gweddill y tymor.

Chwaraeodd ein tîm datblygu i ffwrdd yn erbyn Derwyddon Caerfyrddin ac er ei bod yn cael ei herio gan tim cryfach sy'n chwarae yng nghynghrair Llanelli a'r Cylch, chwaraeodd y tim yn dda cyn colli 12 – 50. Maent yn edrych ymlaen at gem adref yn erbyn Cefneithin a Phorth Tywyn i ffwrdd yn ystod yr wythnosau nesaf. *Gwyndaf Williams*






*Lluniau: Chris Rees*

**FFERYLLFA EVANS**
**MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE**
San Clêr
01994 230444
01994 230456
**eich canolfan gofal iechyd lleol**
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

**D. E. PHILLIPS**
**a'i Feibion**
**TANYBRYN, GLANDWR**
***Trydanwyr***
***Siop Radio a Theledu***
**CRYMYCH**
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
**Robert W. R. Morgan**
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Clwb Rygbi Hendygwyn

Mae'r tymor newydd wedi dechrau gyda mwyafrif helaeth o dimau'r clwb wedi chwarae gemau erbyn hyn.

**Dynion**

Colli gêm gyntaf y tymor, gem ddarbi yn erbyn Talacharn 27-32. Gêm gyflym gyda'r ddau dîm yn manteisio ar bob cyfle i redeg y bêl ar hyd y cae. Colli wnaethom i ffwrdd yn erbyn Llanbed hefyd, colli'n drwm 65-8. Bydd Llanbed siwr o ennill y gynghrair os cadwan nhw mlan i chwarae mor dda.

Roedd ein gêm nesaf adref yn erbyn Betws ac roedd yn wych gweld y tîm yn ennill 31-13. Gêm dda yn yr haul a chanlyniad i roi ychydig o hyder i'r bois.

Gêm gwpan yn erbyn Resolven oedd gennym yr wythnos wedyn, gan golli honno 13-29 . Sgoriodd Resolven o fewn munud cynta'r gêm ac roedd ganddynt y mantais o chwarae gyda'r gwynt yn yr hanner cyntaf.

**Menywod**

Gwnaethant ennill ei gêm gyntaf adref yn erbyn Blaendulais 26-22. Cafodd yr ail gêm ei gohirio oherwydd roedd ddim tîm gyda ni. Ennill wnaethant hefyd adref yn erbyn Caernarfon 24-7, yn y gwynt a'r glaw. Mae timoedd merched dan 12, dan 14, dan 16 a dan 18 wedi chwarae hefyd ac wedi ennill pob gêm hyd yn hyn. Timoedd plant dan 7, dan 8, dan 9 a dan 10 wedi chwarae yn erbyn Aberdaugleddau, Penfro a Crymych - nid oes tîm dan 11 gyda ni eleni ond mae yma dîm dan 12, sydd heb chwarae eto.

*Suzanne Davies*



Tîm Menywod



Tîm dan 14



Tîm dan 12



Tîm dan 18

# Clwb Rygbi San Clêr

Roeddem yn edrych ymlaen at ddwy gêm gynghrair arall ym mis Medi ar ôl colli ein gêm agoriadol yn erbyn Dinbych y Pysgod - drwy deithio i Glwb Rygbi Waunarlwydd. Roedd y garfan yn awyddus i daro nôl ar ôl ein colled ac roedd cefnogaeth y Seintiau teithiol yn wych. Heb os, roedd y cam i fyny yn y safon yn amlwg gydag amddiffynfeydd y ddau dîm yn dal yn gadarn. Er bod gêm ein hunain ychydig yn is na'r safon arferol yn y darn gosod, agoron ni ein sgorio gyda'n capten Jac Howells yn casglu pas rhydd yng nghanol cae a sgorio o dan y pyst, troswyd yn briodol.

*parhad ar dudalen 34*



# CHWARAEON

## Clwb Pêl-droed Llanboidy



**Tymor 2024-25**
Mae tymor 2024-25 yn mynd yn ei flaen i Glwb Pêl-droed Llanboidy, gyda'r tîm cyntaf a'r ail dîm wedi chwarae nifer o gemau yn ystod y mis diwethaf. Rydym hefyd yn falch bod ein hadran iau yn parhau, ac yn edrych ymlaen at weld datblygiad y timoedd iau dros y tymor.

Mae'n rhaid llongyfarch un o gapteiniaid y Clwb; Steffan Williams a'i bartner Lucy ar enedigaeth Osian ar ddechrau mis Medi. Gobeithio gwelwn Osian yn chwarae i Lanboidy yn y dyfodol.



**Tîm 1af**
Mae ein tîm cyntaf sydd yn chwarae yn Adran 1 Ceredigion am 2024-25, wedi chwarae tair gem, ennill dau ac un gêm gyfartal, er gem cwpan oedd hon, a chollwyd ar giciau o'r smotyn.

Medi 14eg - Aberporth 1-7 Llanboidy (Calum Syddal x 3, Geth Scourfield x 2, Ryan Pearce a Frazer Wyatt)
Medi 28ain - Llanboidy 3-3 Llandysul (Benji Gillard, Geth Scourfield x 2)
Hydref 5ed - Castell Newydd Emlyn 0-1 Llanboidy (Ryan Pearce)



**2il Dîm**
Mae'r ail dîm yn chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2024-25 o dan arweinyddiaeth Chris Bowen. Tair gêm mae'r ail dîm wedi chwarae dros y mis diwethaf hefyd. Colli dau ac ennill un.

Medi 7fed - Llanon 3-2 Llanboidy (Harry Gillard a Chris Bowen)
14eg - Felinfach 1-0 Llanboidy
Hydref 5ed- Llanboidy 3-2 Crannog (Rhodri Lewis a Lewis Thompson x 2)

Bydd ein hymarferion ar gyfer yr Hydref bob nos Lun ar Astro Canolfan Hamdden Caerfyrddin rhwng 8-9yh. Croeso cynnes i bawb.

**Adran Iau**
Gyda thymor cyntaf erioed yr Adran Iau wedi bod yn un da'r llynedd, rydym yn edrych ymlaen at barhau gyda'u datblygiad yn ystod 2024-25. Bydd ein holl dimoedd iau yn chwarae yng Ngheredigion am y tymor. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â dechrau ymarferion dros yr haf.


Tîm dan 12

Mae nifer o gemau wedi ei chwarae ar foreau Dydd Sadwrn, a braf gweld canlyniadau positif iawn. Yn ogystal ag hyn mae'n braf iawn gweld nifer o'n chwaraewyr ifanc wedi cael llwyddiant heblaw gyda Llanboidy. Llongyfarchiadau i Llew Murray a Noa Evans am gynrychioli Ysgolion Sir Gar, a llongyfarchiadau hefyd i Mila a Zara Evans, Ruby King ac Alana Jackson sydd wedi cael eu dewis i fod yng ngharfan datblygu CPD Hwlffordd am y tymor.

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Gan ei bod yn dymor newydd, rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi; cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

*Rhodri Lewis*